# LLECHEN LÂN

## GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

## POBL HŶN I'R DYFODOL

**Awduron:** *Jessica Mullan, Manon Pritchard, Elin Jones, Emyr Edwards, Gwyn Llŷn Parry, Lois Owens, Alun Williams, Aled Davies, Dylan Owen*


**Cyhoeddwyd: Medi 2024**

# Cynnwys

**Crynodeb Gweithredol** ..... **3**
**1. Cyflwyniad** ..... **7**
1.1 Y Sefyllfa ..... 7
1.2 Cefndir ..... 8
1.3 Asesiad ..... 13
1.4 Rhagdybiaethau Allweddol ..... 15
**2. Amcanestyniadau Poblogaeth 65+** ..... **17**
**3.Casgliadau amcanestyniadau heb ymyrraeth** ..... **20**
3.1Gofal Preswyl / Nyrsio ..... 21
3.2 Gofal Preswyl / Nyrsio – Dementia ..... 26
3.3 Gofal Cartref ..... 31
3.4 Teleofal ..... 36
3.5 Taliadau Uniongyrchol ..... 40
3.6 Tai Gofal Ychwanegol ..... 43
3.7 Staffio ..... 46
**4 Cyllid** ..... **54**
**5. Crynodeb Rhan 1:** ..... **58**
**6. Cyflwyniad rhan 2** ..... **60**
**7. Gweithio tuag at y cymedr gwledig** ..... **62**
**8. Gweithio'n arloesol** ..... **66**
8.1 Gwaith cymunedol yng Ngwynedd ..... 67
8.2 Gwaith ar sail cryfder ..... 71
8.3 Technoleg a Deallusrwydd Artiffisial ..... 73
8.4 Tai Gofal Ychwanegol / Modelau llety addas ..... 76
8.5 Crynodeb Gweithio'n arloesol ..... 77
**9. Casgliadau ac Argymhellion** ..... **80**
**10. NODIADAU A LLYFRYDDIAETH:** ..... **84**
**11. ATODIADAU** ..... **87**
11.1 Atodiad 1 - Rhagdybiaethau a Methodoleg ..... 88
11.2 Atodiad 2 - Data Cyllid cefndirol i rhan 4 ..... 97

# LLECHEN LÂN: CIPOLWG


> “Disgwylir i’r canran o bobl hŷn gynyddu’n sylweddol dros y 20 mlynedd nesaf. Ni ragwelir yr un faint o gynnydd yn y boblogaeth oedran gwaith.”




> “Mi fydd y cynnydd yn y galw ar y Gwasanaethau Cymdeithasol yn anferthol. Rydym yn methu darparu i bawb o fewn yr adnodd fel ag y mae ar hyn o bryd”


## Y GWEITHLU FYDD EI ANGEN I DDARPARU GOFAL






## Y CYLLID FYDD EI ANGEN I DDARPARU GOFAL CARTREF, PRESWYL A NYRSIO







> “Os na newidiwn ni y ffordd o weithredu, ni fydd yn bosib darparu gofal cymdeithasol. Rhai opsiynau yw:”

- GWAITH AR SAIL CRYFDER
- TAI GOFAL YCHWANEGOL
- TELEOFAL A ROBOTEG
- GWAITH CYMUNEDOL


> “Pe byddem yn gweithredu yn debyg i siroedd gwledig eraill o ran darpariaeth bresennol byddai’r bwlch yn lleihau fel a ganlyn:”

## EFFAITH DULLIAU LLINIARU POSIB AR ANGHENION GWEITHLU GOFAL 2043




Seiliwyd yr uchod ar ganrannau gweithlu yn unig, nid yw’n cynnwys cynnydd posib mewn gweithlu wrth ddatblygu gwasanaethau eraill (megis teleofal ac ati)

## EFFAITH DULLIAU LLINIARU POSIB AR Y CYLLID ANGENRHEIDIOL 2043




*Nid ywr ffigyrau hyn yn cynnwys chwyddiant

# Crynodeb Gweithredol

## Rhagarweiniad

Yn 1971 roedd 4% o boblogaeth Caerdydd yn siarad Cymraeg. Erbyn cyfrifiad 2021 gwelwyd fod 34.7% o boblogaeth Treganna yng nghanol Caerdydd yn siarad Cymraeg. Er ei bod yn anodd rhoi tystiolaeth gadarn, ni chredir, yn anffodus, mai datblygiad addysg Gymraeg yn y ddinas yn unig gyfrannodd at y cynnydd hwn. Acenion Gwynedd, Ceredigion a Sir Gâr glywir ar fwyafrif y tafodau, gan awgrymu bod allfudo sylweddol wedi lleihau'r boblogaeth oedran gwaith yn ardaloedd gwledig y fro Gymraeg ar yr union adeg pan mae'r boblogaeth pobl hŷn yn cynyddu. Gyda'r boblogaeth yn gyffredinol yn byw yn hŷn, ynghyd â mewnfudo i gefn gwlad Gwynedd, gwelwyd cynnydd yn y ganran o'r boblogaeth sydd dros 65, ac yn fwy trawiadol fyth, yn y boblogaeth dros 85.

Gwelir effeithiau'r newid poblogaeth hŷn yng Ngwynedd, gyda'r galw am wasanaethau gofal henoed yn cynyddu, tra fod y gweithlu sydd ar gael i ddiwallu'r angen wedi lleihau. Felly, mae nifer sylweddol o bobl hŷn sydd angen gofal yn gorfod disgwyl amdano a'r pwysau ar wasanaethau yn tyfu.

Edrydd yr adroddiad hwn ar y sefyllfa sydd ohoni, yr heriau demograffeg presennol a'r rhagamcanion dros y ddau ddegawd nesaf, ac effeithiau posib hynny ar y galw am ofal, ar y gallu i ddiwallu'r angen drwy gynyddu'r gweithlu, ac ar y pwysau ariannol a ddisgwylir.

## Dulliau Gweithredu

Bu nifer o swyddogion[1] yn ran o grŵp gorchwyl a gorffen am gyfnod o 6 mis yn casglu a dadansoddi gwybodaeth a data lleol, sirol, cenedlaethol ac yn rhyngwladol, er mwyn datblygu'r adroddiad hwn. Ystyriwyd data'r cyfrifiadau, cyllidebau, gwasanaethau a rhagamcanion poblogaethau er mwyn deall yr hyn a ragwelir yn yr adroddiad.

---


[1] Jessica Mullan, Manon Pritchard, Elin Jones, Lois Owens, Emyr Edwards, Gwyn Llŷn Parry, Alun Williams, Aled Davies, Dylan Owen

Wedi dangos a rhagfynegi'r newid yn y galw am wasanaethau ar gyfer y ddau ddegawd nesaf, a goblygiadau hynny, edrychir ar ddulliau posib o liniaru'r pwysau fydd ar y gwasanaethau gan gymharu gydag wyth o siroedd gwledig eraill yng Nghymru.

## Canfyddiadau

Wedi ystyried tystiolaeth siroedd eraill, awgryma'r adroddiad y byddai modd i'r gwasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd leihau'r galw a'r pwysau am wasanaethau ar gyfer pobl hŷn drwy weithredu'n wahanol, ond hyd yn oed wedyn fe erys bwlch yn y ddarpariaeth bosib ac yn y cyllid a'r gweithlu fydd ar gael i ddarparu.

Dengys y graff isod fod Cyngor Gwynedd ar hyn o bryd (Mai 2023) yn methu darparu 11% o'r galw presennol a bod rhagfynegi y gallai y galw am wasanaethau gynyddu hyd at 56% yn fwy dros y dau ddegawd nesaf. Pe byddai'r gwasanaeth yn llwyddo i arloesi a newid y dulliau gweithredu fel fod y galw'n efelychu'r cyfartaledd siroedd gwledig cymharol Cymru, gellid lleihau'r cynnydd fel ei fod ychydig yn fwy na 30%. Hyd yn oed pe medrid darparu cyn lleied o ofal â'r siroedd sy'n darparu'r lleiaf yn y siroedd gwledig cymharol (noder nad yw darparu llai o reidrwydd yn adlewyrchu darpariaeth dda a diogel), byddai'r cynnydd oddeutu 18%. Yr hyn sy'n eglur yw fod gallu'r gwasanaethau i ddarparu'r gofal yn llawer is ac y pery'r bwlch i'r dyfodol, felly, bod angen syniadau radical a chymorth cenedlaethol i fynd i'r afael â'r her.




Siart: Effaith posib gweithio yn unol ag arfer gorau neu arloesol ar angen gofal cartref, preswyl a nyrsio yng Ngwynedd erbyn 2043

## Argymhellion

Ceir argymhellion llawn yn yr adroddiad, ac mae'r rhain wedi eu **byrhau a'u crynhoi** yma:

| Amserlen | Argymhelliad | Cyfrifoldeb |
|---|---|---|
| **Tymor Byr** | Paratoi a gweithredu cynlluniau i weithredu'n arloesol: | |
| | • Cwblhau asesiad anghenion tai/llety i bobl hŷn; | Penaethiaid Oedolion a Tai |
| | • Hyrwyddo gwaith cymunedol ar sail cryfder; taliadau uniongyrchol; TAG (Technoleg Alluoga Gofal); | Pennaeth Oedolion |
| | • Rheoli a chomisiynu gofal yn effeithiol ac effeithlon; | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol |
| | • Darparu gwasanaethau gwybodaeth | Pennaeth Oedolion a'r Tim Rheoli Corfforaethol |
| | • Datblygu academi gofal | Uned Hyfforddiant Gwasanaethau Cymdeithasol |
| | • Cydweithio ar draws y Cyngor ac ar draws sectorau i ganfod datrysiadau ar y cyd. | Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth Oedolion |
| | Sicrhau trosolwg rheolaidd a gofalus gan Gynghorwyr ac uwch swyddogion ar y gwaith hwn dros y blynyddoedd nesaf er mwyn cadw golwg ar gynnydd. | Aelod Cabinet â Chyfrifoldeb dros Wasanaethau Oedolion, Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol |
| | Datblygu cynlluniau cyllidebu wedi eu seilio ar dystiolaeth yn ôl yr adroddiad hwn. | Pennaeth Cyllid |
| **Tymor Canolig/Hir** | Gweithredu'n rhagweithiol ac ataliol ar y cyd ar draws gwasanaethau cyhoeddus a'r trydydd sector | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth Oedolion |
| | Cydweithio ar draws y Cyngor i ganfod datrysiadau i gefnogi unigolion i fyw eu bywyd gorau yn eu cynefin a'u cymuned. | Prif Weithredwr, Tîm Rheoli Corfforaethol. |
| | Datblygu ac ehangu cefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr di-dâl | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Pennaeth Oedolion |

| | | |
|---|---|---|
| | Datblygu cynlluniau cyllidol ar gyfer y degawdau nesaf ar sail y wybodaeth yn yr adroddiad hwn ac ar gyfer sicrwydd ariannol y dyfodol I'r Cyngor. | Pennaeth Cyllid |
| **Cyffredinol** | Codi ymwybyddiaeth o'r heriau a'r angen am adnoddau. | Cynghorwyr, Prif Weithredwr, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol. |
| | Hyrwyddo a phwysleisio bod heriau'r dyfodol yn ehangach na'r adran Oedolion, a bod gan holl adrannau'r cyngor gyfraniadau i'w gwneud. | Prif Weithredwr, Tîm Rheoli Corfforaethol. |
| | Gweithredu i leihau allfudo ieuenctid o'r sir. | Cynghorwyr, Prif Weithredwr, Tim Rheoli Corfforaethol. |
| | Cynllunio cyllidebau ar sail tystiolaeth ac anghenion. | Pennaeth Cyllid, Prif Weithredwr. |

# 1. Cyflwyniad

## 1.1 Y Sefyllfa

Gwyddys fod:

1.1.1 Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn Gwynedd yn methu darparu gofal i bawb o’r boblogaeth mwyaf bregus;

1.1.2 Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn Gwynedd yn methu darparu'r gwasanaeth angenrheidiol o fewn y cyllid sydd ar gael ar hyn o bryd;


1.1.3 Rhagfynegiadau demograffeg poblogaeth Gwynedd yn awgrymu y bydd nifer pobl Gwynedd sydd mewn oedran gwaith yn parhau'n weddol gyson dros y blynyddoedd i ddod tra disgwylir i boblogaeth pobl hŷn Gwynedd barhau i gynyddu'n sylweddol, yn enwedig yn yr oedrannau hynaf (80 oed a throsodd), sy'n fwy tebygol o fod angen gofal;

1.1.4 Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn Gwynedd yn darparu gwasanaethau traddodiadol yn amlach na pheidio a bod rhai siroedd eraill yn defnyddio cymysgedd o wahanol ddulliau amgen i gynorthwyo pobl i fyw’n annibynnol.

## 1.2 Cefndir

1.2.1 Rhagwelir y bydd y cyfuniad o'r heriau ariannol, effaith yr heriau demograffeg ar adnoddau dynol, ac effaith yr heriau demograffeg ar y galw am wasanaethau yn creu sefyllfa o fethiant i'r gwasanaethau pobl hŷn, oni wneir rhywbeth ar frys i newid y sefyllfa. Y cam cyntaf at wneud hynny yw cydnabod yr her a'i deall yn iawn.

1.2.2 Dengys y graffeg isod (**Siart 1**) y cynnydd anochel mewn galw wrth i'r niferoedd o bobl hŷn yng Ngwynedd dyfu, oni newidir ein darpariaeth, tra bod y nifer o bobl fydd ar gael i ddarparu'r gwasanaethau hynny yn lleihau. Symboleiddia'r saethau glas yr ymdrechion sydd eu hangen ar weithredu mewn dulliau amgen er mwyn hyrwyddo bywyd annibynnol heb ddibyniaeth ar wasanaethau lle bo modd gwneud hynny (nid yw'n cynrychioli rhestr drwyadl).




Siart 1: Graffeg

### 1.2.3 Adnoddau Dynol - Newid yn y Boblogaeth Oedran Gwaith

Eisoes mae Cyngor Gwynedd yn cael trafferth denu gweithlu addas ar gyfer asesu, cefnogi a darparu gofal traddodiadol o fewn y sir. Datblygodd y sefyllfa hon dros gyfnod o ddegawdau ac erbyn dechrau 2024 roedd oddeutu 100 o bobl yn disgwyl am ofal cartref (tua 1,000 o oriau pob wythnos). Mae'n debyg mai canlyniad o gyfuniad o'r cynnydd mewn nifer o bobl hŷn sydd angen cymorth a'r lleihad mewn nifer y boblogaeth oedran gwaith yw hyn. Gwelir heriau cyffelyb mewn darpariaeth gofal preswyl a phreswyl nyrsio yn ogystal, gyda nifer o bobl yn gorfod teithio ymhell am wasanaethau, neu ar restrau aros.

Gwelwn o'r wybodaeth isod (**Tabl 1**) fod Gwynedd, ar gyfartaledd dros y ddegawd, wedi colli dros 500 o bobl o oedran gwaith pob blwyddyn rhwng 2011 a 2021 (neu 42 bob mis am y ddegawd).

**Tabl 1: Newid mewn poblogaeth oed gwaith Gwynedd rhwng 2011 a 2021**


| Grŵp Oedran | 2021 | 2011 | +/- % |
|---|---|---|---|
| 16-24 oed | 14,260 | 16,723 | -14.7% |
| 25-34 oed | 13,127 | 12,532 | +4.7% |
| 35-49 oed | 18,659 | 22,808 | -18.2% |
| 50-64 oed | 24,655 | 23,720 | +3.9% |
| **Cyfanswm oedran gwaith (16-64 oed)** | **70,701** | **75,783** | **-6.7%** |

*Ffynhonnell: Cyfrifiad, Swyddfa Ystadegau Gwladol*

Noder hefyd fod nifer fawr o'r boblogaeth yn 2021 yn y categori 50-64 oed ac felly yn debygol o fod yn gadael y byd gwaith yn ystod y ddegawd nesaf. Dros yr un cyfnod hefyd (rhwng 2011 a 2021) gostyngodd y boblogaeth dan 16 oed o 20,951

i 19,423 sef gostyngiad o 7.3%, a fydd yn gadael bwlch tebygol arall yn y gweithlu i'r dyfodol. Mae angen dadansoddi, dehongli a deall effeithiau y gostyngiad hyn.

O edrych ar y patrwm hanesyddol yng Ngwynedd (siart isod), fe fu rhywfaint o gynnydd ym maint y boblogaeth oedran gwaith dros y degawdau ond, fel y gwelwyd uchod, fe newidiodd y patrwm yma dros y ddegawd ddiwethaf. Mae rhagamcanion poblogaeth Llywodraeth Cymru (seiliedig ar ddata 2018; llinell doredig ar y siart) yn awgrymu y gallai'r sefyllfa sefydlogi gyda chynnydd bychan dros y ddau ddegawd nesaf, ond yng ngoleuni'r gostyngiad poblogaeth yng Ngwynedd ddaeth i'r amlwg yng Nghyfrifiad 2021, mae'n debygol y bydd y set newydd o ragamcanion (gyhoeddir yn 2025) yn darogan y bydd y boblogaeth oed gwaith yn parhau i ostwng. Un ffordd neu'r llall, ni fydd y boblogaeth oed gwaith yn tyfu ar yr un raddfa â'r twf tebygol yn y boblogaeth hŷn fydd angen gofal, a bydd hyn yn arwain at fwlch tebygol yn y gweithlu fydd ar gael.




Siart 2: Poblogaeth oedran gwaith Gwynedd rhwng 1991 a 2021 a rhagfynegiad hyd at 2043.

1.2.4 **Cynnydd yn y Galw am Wasanaethau**

Ers 2011 tyfodd y boblogaeth dros 65 oed o 7.8% yng Ngwynedd, tra lleihaodd y boblogaeth rhwng 15 a 64 oed o 6.8%. Bu lleihad hefyd ym mhoblogaeth plant dan 15 oed (-7.3%), ac felly ystyrir nad her tymor byr yw hwn. Edrydd Gofal Cymdeithasol Cymru fod gan Gymru yn gyffredinol fwy o bobl dros 85 na gweddill y Deyrnas Unedig a bod y nifer yn debyg o ddyblu ar draws Cymru erbyn 2045.

Ymhellach, eglura Cydffederasiwn GIG Cymru fod gan Gymru y nifer uchaf o bobl sydd â chyflyrau hirdymor cyfyngol neu gronig yn y Deyrnas Unedig, gyda'r niferoedd yn cynyddu yn gyflym (o 105,000 o bobl gyda chyflyrau hirdymor cyfyngol neu gronig yng Nghymru yn 2001/2 at 142,000 yn 2010/11) ac yn debygol o barhau i gynyddu wrth i'r boblogaeth heneiddio ymhellach.

Erbyn Cyfrifiad 2021 roedd dros 25,000 o bobl hŷn na 65 oed yng Ngwynedd, gydag oddeutu traean ohonynt dros 80 oed. O gymharu â Chymru mae:

15.3% o bobl dan 15 oed yng Ngwynedd a 16.5% yng Nghymru;

23.5% o bobl dros 65 oed yng Ngwynedd a 21.3% yng Nghymru.

**1.2.5 Cyllideb**

Yn 2023/24 roedd lefel cyllideb Cyngor Gwynedd ar gyfer gofal oedolion dros 65 oed fesul pen o'r boblogaeth 65 oed a hŷn yn £1,433.10, o'i gymharu â chanolrif o £1,126.41 ar draws y 9 awdurdod tebycaf yng Nghymru (y 9 cyngor mwyaf gwledig, sydd hefyd â nodweddion eithaf tebyg o ran amddifadedd, demograffeg ac ati). Mae'r gwahaniaeth yma'n cyfateb i £8.6 miliwn. [Ffynhonnell: dadansoddiad Gwasanaeth Ymchwil Cyngor Gwynedd o ffurflenni RA cyllidebau cynghorau Cymru]. Serch hynny, mae'n werth nodi fod pryder nad yw cynghorau yn gweithredu yn yr un modd / yn cynnwys yr un costau, ac felly nad ydym yn cymharu debyg wrth debyg.

Er cydnabod peryglon rhoi gormod o bwyslais ar gymariaethau o'r fath, mae gwahaniaeth mor fawr yn awgrymu – ar yr wyneb – bod Gwynedd un ai ag anghenion gofal uwch (fesul y boblogaeth berthnasol) na mwyafrif yr awdurdodau tebyg yng

Nghymru, a / neu bod Gwynedd yn ateb yr anghenion gofal hynny drwy ddulliau sy’n costio mwy nag awdurdodau eraill tebyg.

Gydag adnoddau'n lleihau a’r gorwariant a ragwelir yn cynyddu, ochr yn ochr â'r galw am wasanaethau yn cynyddu, ni all ein gwasanaethau fod yn gynaliadwy ar hyn o bryd. Mae angen gweithredu’n gyflym i ailfeddwl sut a pha wasanaethau a ddarperir fel y gallwn wella cynaliadwyedd a hirhoedledd ein gwasanaethau gofal.

**1.3 Asesiad**

**1.3.1** Ar 27ain Mehefin 2023 cyflwynodd Cyfarwyddwyr y Gwasanaethau Cymdeithasol yng Ngwynedd adroddiad i'r Tîm Arweinyddiaeth yn amlinellu nod y cynllun Llechen Lân. Dyma'r amcanion a gyhoeddwyd:

*Amcan y cynllun **Llechen Lân** yw darganfod beth yw gwir gost ac ymarferoldeb darparu gwasanaethau oedolion eleni ac i ragfynegi hynny ymlaen dros yr ugain mlynedd nesaf. Er mwyn gwneud hynny bydd angen deall a chymharu:*

- *Arfer gorau gwasanaethau cymdeithasol oedolion yn genedlaethol ar faterion megis:*
    - *Nifer o weithwyr yn ôl maint poblogaeth;*
    - *Cyllidebau yn ôl maint poblogaeth;*
    - *Gwasanaethau a ddarperir yn ôl maint poblogaeth;*
    - *Deilliannau yn ôl maint poblogaeth;*
    - *Newid demograffeg Gwynedd am yr ugain mlynedd nesaf;*
    - *Newidiadau arfaethedig i wasanaethau (Cynllun y Cyngor);*
    - *Dichonoldeb adnoddau dynol a datblygiadau technegol.*

*Bydd angen dehongli a thriongli'r wybodaeth uchod i ddeall beth yw'r cydbwysedd perffaith i Wynedd o ran nifer y gweithwyr, cyllidebau, gwasanaethau, a deilliannau sydd yn hyrwyddo annibyniaeth unigolion.*

*Wedi dod i gasgliad ar hynny, bydd angen:*

- *Creu cynllun deng mlynedd ar gyfer newid arferion i gyrraedd y gwasanaeth delfrydol sydd â'r deilliannau gorau;*
- *Deall costau darparu'r gwasanaeth delfrydol hwnnw a phroffilio am gyfnod o ddeng mlynedd tra bod y gwasanaeth yn newid ei arferion i gyrraedd ato.*

*Gellid wedyn prisio'r cyfan (heb gynnwys chwyddiant i ddechrau) fel ein bod yn gallu cydnabod a rhagweld angen cyllidol y deng mlynedd sydd i ddod.*

**1.3.2 Llety**

*I gyd-fynd gyda'r gwaith uchod bwriedir gwneud gwaith cyffelyb ar y cyd gyda'r adran Tai i baratoi cynllun deng mlynedd ar hugain ar gyfer anghenion tai pobl hŷn Gwynedd. Bwriedir mapio Gwynedd gyfan yn ôl anghenion demograffeg, gwasanaethau presennol, ac opsiynau darpariaeth llety presennol. Bydd hynny'n ein galluogi i gynllunio'n wybodus ar gyfer datblygiadau tai gofal ychwanegol a chartrefi preswyl/nyrsio, ac yn ei dro bydd y gwaith hynny'n dylanwadu ymhellach ar y gwaith Llechen Lan.*

Mae'r adroddiad yma yn cyflwyno pwynt 1.3.1. uchod.

## 1.4 Rhagdybiaethau Allweddol

**1.4.1** Diffinnir 'pobl hŷn' fel y boblogaeth 65 oed a throsodd, er mwyn cysondeb â pholisïau a strategaethau megis 'Cymru o Blaid Pobl Hŷn' a'r modd y trefnir gwasanaethau yn y Cyngor, ynghyd â chysondeb gyda gwahanol ffynonellau data. Fodd bynnag fe wneir y modelu manwl ar sail bracedi oedran o fewn hynny (oed 65-69, 70-74 ac ati) ac fe gyfeirir at y canlyniadau fesul grŵp oedran manwl lle'n briodol.

**1.4.2** Wrth fodelu'r anghenion gofal i'r dyfodol, rhagdybir y bydd y cyfran o'r boblogaeth 65 oed a throsodd sy'n derbyn gofal yn aros yn gyson (felly, wrth i boblogaeth Gwynedd mewn grŵp oedran penodol gynyddu i'r dyfodol, y bydd y nifer pobl o fewn yr oedran hwnnw fydd angen derbyn y gwahanol fathau o ofal yn cynyddu yn ôl yr un cyfran). Nid yw'r model felly yn cynnwys unrhyw newidiadau mewn anghenion gofal e.e. pe bai iechyd cyffredinol y boblogaeth yn gwaethygu neu wella, neu os oes newid yn y gyfran o'r boblogaeth sydd gyda chyflwr neu afiechyd.

**1.4.3** Defnyddir rhagamcanion poblogaeth diweddaraf Llywodraeth Cymru (seiliedig ar boblogaeth 2018) fel sail i'r model, ond gan ail-seilio'r llinell sylfaen i fod yn gyson â data poblogaeth Cyfrifiad 2021. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi set newydd o ragamcanion ar gyfer Gwynedd tua dechrau 2025, fydd yn adlewyrchu'n llawn y newidiadau demograffig diweddaraf, gan gynnwys y tueddiadau a welwyd yn y Cyfrifiad. Mae'n bosibl y bydd hyn yn newid ychydig ar fanylder y ffigyrau (h.y. fe allent ddangos twf rywfaint is, neu rywfaint uwch, yn y boblogaeth pobl hŷn na'r rhagamcanion presennol) ond ni ddisgwylir newid mawr i gyfeiriad cyffredinol y newidiadau demograffig a ragwelir.

**1.4.4** Fesul chwech ffrwd gwasanaeth Gofal Cymdeithasol (Gofal preswyl/ nyrsio; Gofal preswyl/ nyrsio Dementia; Gofal Cartref; Teleofal; Taliadau Uniongyrchol; Tai Gofal Ychwanegol) sefydlwyd y sefyllfa gyfredol o ran darpariaeth gwasanaeth, gweithlu, a chyllid, ar sail y data diweddaraf sydd ar gael. Wedyn fe ddefnyddiwyd y rhagamcanion poblogaeth i amcangyfrif y nifer

fyddai'n derbyn gwasanaeth yn 2033, ac yn 2043, ar y sail amlinellwyd uchod. Modelwyd wedyn y goblygiadau gweithlu, a'r goblygiadau cyllid, yn unol â hyn gan greu model cydlynol o effaith y newidiadau ellir eu disgwyl dros y 10 a'r 20 mlynedd nesaf.

**1.4.5** Mae yna restr aros eisoes yn bodoli ar gyfer rhai o'r gwasanaethau yma – sef oriau gofal na ellir eu darparu ar hyn o bryd oherwydd diffyg capasiti. Mae data ar gyfer hyn wedi'i gynnwys yn y model, h.y. mae'r anghenion gofal a fodelir yn cynnwys diwallu'r rhestr aros bresennol ynghyd ag effeithiau twf demograffig i'r dyfodol.

**1.4.6** Yn gyffredinol, mae'n bwysig cofio mai model yw hwn, sy'n defnyddio'r wybodaeth orau sydd ar gael er mwyn cynhyrchu amcangyfrifon lefel-uchel o'r galw am wasanaethau gofal pobl hŷn i'r dyfodol. Dylid ymdrin â'r canlyniadau fel tafluniad o'r hyn allai ddigwydd yn hytrach na chyfrifiad manwl-gywir; fe all y bydd angen diweddaru'r rhagolygon i'r dyfodol yng ngoleuni profiad, neu gynnal ymchwil pellach i gadarnhau rhai agweddau.


**1.4.7** Am wybodaeth gyflawn am fethodoleg a rhagamcanion yr adroddiad hwn, gweler Atodiad 1.

## 2. Amcanestyniadau Poblogaeth 65+

**2.1** Dyma’r rhagamcanion poblogaeth diweddaraf ar gyfer Gwynedd gan Lywodraeth Cymru (wedi’u seilio ar ddata poblogaeth 2018), wedi eu haddasu rywfaint i adlewyrchu'r lleihad ym mhoblogaeth Gwynedd yng Nghyfrifiad 2021 (Mwy o wybodaeth yn y fethodoleg).


**Tabl 2: Rhagamcanion poblogaeth dros 65 oed Gwynedd yn 2033 a 2043**

| Grŵp Oedran | 2021 | 2033 | 2043 |
|---|---|---|---|
| **65-69** | 7,090 | 8,617 | 6,922 |
| **70-74** | 7,299 | 7,590 | 7,710 |
| **75-79** | 5,434 | 5,623 | 6,777 |
| **80-84** | 3,650 | 4,594 | 5,422 |
| **85-89** | 2,310 | 3,256 | 3,266 |
| **90+** | 1,491 | 1,734 | 2,355 |
| **Cyfanswm 65+** | 27,274 | 31,415 | 32,452 |




Siart 3: Rhagamcaniadau poblogaeth dros 65 oed Gwynedd ym 2023 a 2043

**2.2** O ganlyniad i'r twf yma yn y boblogaeth oedran hŷn, a'r ffaith (fel a welwyd yn rhan 3 uchod) fod y boblogaeth oedran gwaith wedi bod yn gostwng ac nad oes disgwyl iddo gynyddu lawer i'r dyfodol, mae'r gyfran dibyniaeth oedran hŷn (poblogaeth 65 oed a hŷn, fel canran o'r boblogaeth 18-64 oed) wedi bod yn cynyddu yng Ngwynedd ac fe ddisgwylir iddo barhau i gynyddu i'r dyfodol, fel ddangosir yn y siart isod.




Siart 4: Newid yng nghanran poblogaeth oedran 65+ fel cyfran o boblogaeth oedran 18-64 Gwynedd dros dri degawd

## 3. Casgliadau amcanestyniadau heb ymyrraeth

***“Yr oedran cyfartalog y rhagwelir y bydd afiechydon mawr yn datblygu yw 70 mlynedd. Gyda'r cynnydd mewn disgwyliad oes, bydd y blynyddoedd a dreulir gyda salwch yn cynyddu hefyd” (Comisiwn Bevan, 2024).***

**3.0.1** Yn Adran 4 cyflwynir data ar gyfer y chwech Gwasanaeth Gofal Cymdeithasol: Gofal preswyl/ nyrsio; Gofal preswyl/ nyrsio Dementia; Gofal Cartref; Teleofal; Taliadau Uniongyrchol; Tai Gofal Ychwanegol. Dengys y data hwn y llinell sylfaen ar gyfer pob gwasanaeth gofal cymdeithasol, sydd wedi'i lunio drwy ddadansoddi’r oriau gofal wythnosol cyfredol ar gyfer pob Gwasanaeth (Teleofal yn cael ei fesur drwy nifer y defnyddwyr). (Mwy o wybodaeth am sail y model yn Atodiad 1)

**3.0.2** Ystyria’r adran hon bob gwasanaeth yn unigol, gan egluro mwy am y gwasanaeth, cyn cyflwyno tabl a graff sy'n cynnwys data gwaelodlin 2023, a rhagfynegai ar gyfer 2033 a 2043 ar gyfer pob grŵp oedran yng Ngwynedd.

**3.0.3** Noder bod yr amcanestyniadau hyn yn seiliedig ar y newidiadau yn y boblogaeth e.e. cymdeithas sy'n heneiddio, ac nid newidiadau ffordd o fyw, iechyd neu dechnolegol. Mae'r amcanestyniadau hyn hefyd yn seiliedig ar wasanaethau cymdeithasol Gwynedd yn gweithredu yn yr un modd ag y mae ar hyn o bryd.

### 3.1 Gofal Preswyl / Nyrsio

**3.1.1** Cynigia gofal preswyl gartref i bobl sydd angen gofal a chymorth ychwanegol (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2022). Mae'n rhaid i gartrefi preswyl gael eu cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru. Yng Ngwynedd mae 11 cartref preswyl i oedolion hŷn sydd yn cael eu rhedeg yn fewnol gan y Cyngor, a 10 sydd yn cael eu rhedeg gan gwmnïau preifat. Ar hyn o bryd mae yna 292 o welyau yn y cartrefi mewnol a 198* yn y cartrefi allanol.

**3.1.2** Darpara cartrefi nyrsio fel cartrefi preswyl ofal personol, ond yn ychwanegol at hynny mae un neu fwy o nyrsys cymwysedig ar ddyletswydd bob awr o'r dydd. Mae'r cartrefi hyn ar gyfer pobl sydd angen gofal a chymorth ychwanegol a all fod oherwydd anabledd corfforol, anabledd dysgu, neu gyflwr meddygol cymhleth (GIG, 2022). Yng Ngwynedd mae 10 cartref nyrsio; mae'r rhain i gyd yn cael eu rheoli gan gwmnïau preifat. Ar hyn o bryd mae yna 476* o welyau yng nghartrefi nyrsio Gwynedd (mae'r rhain yn gallu bod yn welyau preswyl a nyrsio, ac mae ychydig o rhain yn gallu bod yn welyau dementia).

**3.1.3** Yn y flwyddyn 2023-24 gosododd y model ffioedd cartrefi preswyl rhanbarthol ragdybiaeth ('Toolkit' Gogledd Cymru) oriau gofal sydd yn cael eu darparu fesul gwely. Y rhagdybiaeth yma yw 22 awr yr wythnos ar gyfer gofal preswyl a 26 awr yr wythnos ar gyfer gofal nyrsio (heb gynnwys oriau nyrsio). Rydym wedi defnyddio'r oriau yma i gyfrifo sawl awr o ofal yr wythnos a ddarparwyd yng Ngwynedd yn ystod yr ail wythnos ym mis Mai 2023.


***** *O'r 10 cartref preswyl allanol, mae 3 cartref yn gallu darparu gofal preswyl gyda gofal dementia. O'r 11 cartref nyrsio allanol, mae 4 cartref yn gallu darparu gofal nyrsio gyda gofal dementia. Mae'r rhaniad gwelyau yn y cartrefi yma yn newid yn ddibynnol ar y galw, felly mae'r ffigyrau yma yn cynnwys ffigyrau gofal dementia a gofal preswyl/nyrsio.*

**Tabl 3: Rhagfynegai o nifer oriau wythnosol gofal preswyl/ nyrsio bydd angen eu darparu i unigolion 65+ dros y 20 mlynedd nesaf ***

| Grŵp Oedran | Oriau gofal darparwyd 2023 | Rhestr aros 2023 | Oriau gofal fydd angen 2033** | Oriau gofal fydd angen 2043** |
|---|---|---|---|---|
| **65-69** | 450 | 52 | 588 | 491 |
| **70-74** | 570 | 45 | 640 | 654 |
| **75-79** | 1,698 | 155 | 1,912 | 2,299 |
| **80-84** | 2,036 | 191 | 2,795 | 3,296 |
| **85-89** | 2,804 | 139 | 4,172 | 4,188 |
| **90+** | 4,768 | 367 | 5,906 | 7,907 |
| **Cyfanswm 65+** | **12,326** | **949** | **16,013** | **18,835** |

***Ddim yn cynnwys oriau dementia, rhain yn 3.2*


***Rhagfynegai 2033 a 2043 yn cynnwys diwallu'r rhestr aros bresennol ynghyd â thwf demograffig yn yr angen*




Siart 5: Rhagfynegai o nifer oriau wythnosol gofal preswyl/ nyrsio y bydd angen eu darparu i unigolion 65+ dros yr 20 mlynedd nesaf *

**Ddim yn cynnwys oriau dementia, rhain yn 3.2*

***Rhagfynegai 2033 a 2043 yn cynnwys diwallu'r rhestr aros bresennol ynghyd â thwf demograffig yn yr angen*




Siart 6: Rhagfynegai o nifer oriau wythnosol gofal preswyl/ nyrsio y bydd angen eu darparu dros y capasiti presennol, i unigolion 65+ dros yr 20 mlynedd nesaf.

**Tu ôl i’r data:**

**3.1.4** Mae'r data yn y graff yn dangos cyfradd arwyddocaol yn nhwf yr angen am ofal preswyl/nyrsio dros yr ugain mlynedd nesaf. Yng Ngwynedd mae’r rhan fwyaf o’n cartrefi preswyl/nyrsio yn llawn ar hyn o bryd. Gellir gweld hyn yn y mil o oriau gofal wythnosol ar y rhestr aros nad oedd Gwynedd yn gallu eu darparu yn ystod yr wythnos dan sylw yn 2023.

**3.1.5** Yn bresennol, does dim argaeledd ychwanegol os na adeiladwn adnodd ychwanegol, dod o hyd i ddarpariaeth ychwanegol, neu newid y ffordd yr ydym yn darparu gofal. Os na fydd newid, ni fydd modd darparu unrhyw oriau dros 12,326 awr wythnosol, a bydd yr unigolion yma yn cael eu rhoi ar ein rhestr aros yn eu cartrefi eu hunain heb gymorth. Mae hynny'n gyfystyr â 3,687 awr o ofal wythnosol yn 2033 a 6,509 o oriau gofal wythnosol yn 2043 na fydd modd eu darparu. Mae'n golygu y bydd y rhestr aros yn cynyddu tua thair gwaith a hanner erbyn 2033 a thua chwe gwaith a hanner erbyn 2043.

**3.1.6** Tra fod cynlluniau ar y gweill ar gyfer datblygu cartref gofal nyrsio ym Mhenyberth yn ardal Pen Llŷn, a bwriedir, yn ogystal, darparu gwasanaethau preswyl nyrsio gan y Cyngor yn fewnol; nid yw'r cynlluniau hyn yn ddigonol i greu digon o welyau ar gyfer y cynnydd enfawr yn y galw. Dengys y ffigyrau hyn bwysigrwydd newid y ffordd yr ydym yn darparu ein gofal yng Ngwynedd. Trafodir hyn ymhellach yn ail ran yr adroddiad hwn.

## 3.2 Gofal Preswyl / Nyrsio – Dementia

> ***Mae ymchwilwyr wedi rhagfynegi bydd cynnydd o 70% yn y nifer o unigolion yng Nghymru sydd yn byw gyda Dementia erbyn 2040.***
>
> ***(Wittenberg, Hu, Barraza-Araiza & Rehill, 2019).***

**3.2.1** Disgrifia “dementia” gyfres o symptomau sydd dros gyfnod o amser yn effeithio ar y cof, y gallu i ddatrys problemau, iaith ac ymddygiad unigolyn (Alzheimer’s Society, 2022). Dementia yw yn un o’r achosion mwyaf cyffredin o farwolaeth, gan ei fod yn gyfrifol am 12.7% o'r holl farwolaethau sydd wedi eu cofrestru yng Nghymru (Comisiwn Bevan, 2024).

**3.2.2** Ceir lleoliadau gofal preswyl a nyrsio penodol ar gyfer unigolion â dementia yng Ngwynedd. Mae 6 o’n cartrefi preswyl mewnol yn cynnig gwelyau dementia, gyda 84 gwely ar gael i unigolion gyda dementia. Cynigia 3 o gartrefi preswyl allanol y sir leoliadau dementia, yn ogystal â 4 o gartrefi nyrsio allanol. Gall llawer o gartrefi preswyl allanol gynnig gwelyau dementia a gwelyau preswyl a nyrsio arferol felly mae nifer y gwelyau dementia sydd ar gael yn newid yn rheolaidd. Cynhwysir ffigyrau gwelyau yn niferoedd 3.1.


**3.2.3** Yn ystod y flwyddyn 2023-24 gosododd y model ffioedd cartrefi gofal rhanbarthol ragdybiaeth (‘Toolkit’ Gogledd Cymru) oriau gofal dementia a ddarperir fesul gwely. Y rhagdybiaeth yma yw y rhoir 24 awr yr wythnos o oriau gofal fesul gwely preswyl dementia a 30 awr y wythnos ar gyfer gofal nyrsio dementia (heb gynnwys oriau nyrsio). Rydym wedi defnyddio’r oriau cyfartalog yma i gyfrifo yr oriau gofal yr wythnos ddarparwyd yng Ngwynedd yn yr ail wythnos o Fai 2023.

**3.2.4** I ragamcanu faint o unigolion fydd angen gofal preswyl/nyrsio dementia yn y dyfodol rydym wedi defnyddio rhagfynegai poblogaeth, ond nid ydym wedi defnyddio rhagfynegai ar sut mae niferoedd Dementia yn tyfu. Mae ymchwil yn dangos fod cyfradd dementia yn cynyddu, nid dim ond oherwydd oed, ond o ganlyniad i nifer o resymau gwahanol e.e. ffordd o fyw, llygredd aer (Alzheimer’s Society, 2021). Mae’r adroddiad yma yn canolbwyntio ar y newid mewn demograffeg yn unig. Byddai’n fuddiol cynnal ymchwil pellach i mewn i gyfraddau dementia a’r cynnydd, o bosib gyda phrifysgol Bangor fel rhan dau o’r gwaith.

**Tabl 4: Rhagfynegai o nifer oriau wythnosol gofal preswyl/ nyrsio DEMENTIA y bydd angen eu darparu i unigolion 65+ dros y 20 mlynedd nesaf**


| Grŵp Oedran | Oriau gofal darparwyd 2023 | Rhestr aros 2023 | Oriau gofal fydd angen 2033** | Oriau gofal fydd angen 2043** |
|---|---|---|---|---|
| **65-69** | 72 | 0 | 89 | 73 |
| **70-74** | 342 | 33 | 400 | 407 |
| **75-79** | 600 | 53 | 676 | 809 |
| **80-84** | 1,194 | 95 | 1,639 | 1,941 |
| **85-89** | 1,248 | 69 | 1,833 | 1,831 |
| **90+** | 1,764 | 128 | 2,194 | 2,942 |
| **Cyfanswm 65+** | **5,220** | **377** | **6,831** | **8,004** |

***Rhagfynegai 2033 a 2043 yn cynnwys diwallu'r rhestr aros bresennol ynghyd â thwf demograffig yn yr angen*




Siart 7: Rhagfynegai o nifer oriau wythnosol gofal preswyl / nyrsio Dementia y bydd angen ei ddarparu i unigolion 65+ dros y 20 mlynedd nesaf.

***Rhagfynegai 2033 a 2043 yn cynnwys diwallu'r rhestr aros bresennol ynghyd â thwf demograffig yn yr angen*




Siart 8: Rhagfynegai o nifer oriau wythnosol gofal preswyl/ nyrsio (Dementia) y bydd angen eu darparu dros y capasiti presennol, i unigolion 65+ dros yr 20 mlynedd nesaf.

**Tu ôl i'r data:**

**3.2.5** Dengys y data yn y graff y twf sylweddol yn yr angen am ofal preswyl/nyrsio dementia dros yr ugain mlynedd nesaf. Yng Ngwynedd mae ein gwelyau dementia yn llawn ar hyn o bryd. Gellir gweld hyn yn y 377 awr o ofal wythnosol sydd ar y rhestr aros, nad oedd Gwynedd yn gallu eu darparu yn ystod yr wythnos dan sylw yn 2023.

**3.2.6** Cyflwyna'r graff y bydd nifer yr oriau gofal preswyl / nyrsio (dementia) wythnosol sydd eu hangen yn cynyddu dros ddwy fil o oriau wythnosol dros yr ugain mlynedd nesaf. Mae cyfran uchel o'r unigolion fydd angen y gofal yma dros 90 oed. Gofal nyrsio dementia yw'r gwasanaeth mwyaf costus i'r adran oedolion hŷn, sy'n costio o leiaf £987.35 yr wythnos yr unigolyn yn 2024/25. Gyda chyllidebau'n gostwng o flwyddyn i flwyddyn, a'r gost o ddarparu'r gofal arbenigol yma yn cynyddu, bydd yn heriol dros ben i'r adran ymateb i gynnydd mor fawr yn y galw. Bydd yn rhaid ailfeddwl y ffordd o weithio er mwyn goresgyn hyn.

**3.2.7** Awgryma ymchwil gan y Gymdeithas Alzheimers y bydd y nifer o unigolion â dementia yn parhau i dyfu'n gyflym oherwydd rhesymau ychwanegol i oedran. Felly, mae'r niferoedd yn debygol o fod yn uwch nag y mae'r graff yn ei ddangos. Byddai'n ddefnyddiol i ymchwil yn y dyfodol ymgorffori'r data ar agweddau gwahanol a allai effeithio ar ddementia, er mwyn rhagfynegi ffigyrau mwy cywir ar gyfer pa ofal dementia fydd ei angen yng Ngwynedd yn y dyfodol.


**3.2.8** Mae yna gynlluniau yn eu lle i ddatblygu cartref nyrsio fydd yn cynnwys gwelyau addas ar gyfer unigolion gyda dementia ym Mhenyberth ym Mhen Llŷn. Pan y cynllunir datblygiadau cartrefi preswyl/nyrsio newydd, mae'r adran yn ceisio sicrhau bod nifer fawr o welyau yn addas ar gyfer unigolion â dementia, oherwydd y cynnydd yn y galw yn y maes hwn. Fodd bynnag, mae'n anodd iawn cadw i fyny â'r galw hwn. Mae'r ffigyrau hyn yn dangos pwysigrwydd newid y ffordd yr ydym yn darparu ein gofal yng Ngwynedd. Bydd hyn yn cael ei drafod ymhellach yn yr ail ran o’r adroddiad hwn.

## 3.3 Gofal Cartref

**3.3.1** Darpara gofal cartref gymorth i bobl fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain trwy ymweliadau. Canolbwyntia eu rôl ar gynorthwyo gyda gofal personol, tasgau cartref a gweithgareddau eraill i helpu i unigolion gynnal ansawdd bywyd yn eu cartrefi a chymunedau (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2022).

**3.3.2** Rhannwyd Gwynedd yn is-ardaloedd gofal cartref. Mae yna 17 is-ardal wahanol fel y gwelir yn y map isod, gyda 7 is-ardal lle y darperir gofal gan wasanaeth mewnol Cyngor Gwynedd; 4 is-ardal wedi ei rannu rhwng darpariaeth mewnol a darpariaeth cwmnïau allanol; a 6 is-ardal lle mae gofal yn cael ei gynnal gan ddarpariaeth cwmnïau allanol.

**Map 1: Is ardaloedd gwasanaethau gofal cartref**





(*[Prosiect Gofal Cartref (llyw.cymru)]*)

**3.3.3** Cafodd y nifer o oriau gofal cartref sydd yn cael eu darparu yn wythnosol ei gyfrifo drwy gymryd ciplun o oriau gofal ddarparwyd yng Ngwynedd yn yr ail wythnos o Fai 2023.

**Tabl 5: Rhagfynegai o nifer oriau wythnosol gofal cartref bydd angen eu darparu i unigolion 65+ dros y 20 mlynedd nesaf**


| Grŵp Oedran | Oriau gofal darparwyd 2023 | Rhestr aros 2023 | Oriau gofal fydd angen 2033** | Oriau gofal fydd angen 2043** |
|---|---|---|---|---|
| **65-69** | 640 | 120 | 918 | 739 |
| **70-74** | 773 | 120 | 933 | 968 |
| **75-79** | 967 | 150 | 1,160 | 1,398 |
| **80-84** | 1,702 | 310 | 2,562 | 2,989 |
| **85-89** | 2,176 | 430 | 3,668 | 3,666 |
| **90+** | 2,135 | 370 | 2,889 | 3,904 |
| **Cyfanswm 65+** | **8,393** | **1,500** | **12,130** | **13,664** |

***Rhagfynegai 2033 a 2043 yn cynnwys diwallu'r rhestr aros bresennol ynghyd â thwf demograffig yn yr angen*




Siart 9: Rhagfynegai o nifer oriau wythnosol gofal cartref bydd angen ei ddarparu i unigolion 65+ dros y 20 mlynedd nesaf.

***Rhagfynegai 2033 a 2043 yn cynnwys diwallu'r rhestr aros bresennol ynghyd â thwf demograffig yn yr angen*




Siart 10: Rhagfynegai o nifer oriau wythnosol gofal cartref y bydd angen eu darparu dros y capasiti presennol, i unigolion 65+ dros yr 20 mlynedd nesaf.

**Tu ôl i'r data:**

**3.3.4** Awgryma'r graff y bydd, dros yr ugain mlynedd nesaf, nifer yr oriau gofal cartref wythnosol yn cynyddu ar gyfer pob grŵp oedran heblaw am gategori oedran 65-69 sy'n cynyddu dros y deng mlynedd nesaf ond yna'n dechrau gostwng.

**3.3.5** Nid yw'r Cyngor yn gallu ateb y galw presennol am ofal cartref yng Ngwynedd, gyda thua 1500 o oriau wythnosol yn eistedd ar ein rhestr aros. Mae hynny'n cyfateb i tua 15% o ofal cartref nad ydym yn gallu ei ddarparu. Os nad yw'r capasiti gofal cartref yn cynyddu, yn 2043 bydd y canran yma yn tyfu i 40%.

**3.3.6** Yn aml, mae cymhlethdod achosion gofal cartref yn cynyddu gydag oed (Baldock, 2002). Felly, nid yn unig y bydd angen i'n staff gofal cymdeithasol ddarparu mwy o oriau, ond efallai y bydd angen iddynt ddelio â gofal personol mwy cymhleth, meddyginiaethau cymhleth, materion symudedd cymhleth ac ati.

**3.3.7** Fel y soniwyd uchod, mae gwaith yn mynd yn ei flaen ers rhai blynyddoedd i wneud gofal cartref yn Ngwynedd yn fwy cynaliadwy trwy ddatblygu is-ardaloedd gofal

cartref. Un o nodau’r cynllun oedd lleihau amseroedd teithio i staff rhwng ymweliadau gofal, gan olygu bod modd defnyddio’r oriau sydd ar gael i roi mwy o ofal. Mae'r prosiect gofal cartref yn enghraifft o'r adran yn ceisio ailfeddwl y ffordd o ddarparu gwasanaethau i gadw i fyny â'r galw a hefyd i wella’r profiad gofal i'n defnyddwyr gwasanaeth. Er fod y gwaith hwn yn parhau, nid oes modd ateb y galw presennol ar hyn o bryd, felly mae angen datblygiad pellach i sicrhau bod yr holl wasanaethau cymdeithasol yn gynaliadwy i’r dyfodol.

## 3.4 Teleofal

**3.4.1** Gwasanaeth monitro sy'n galluogi unigolion i alw am help ddydd neu nos drwy gyffwrdd botwm, neu drwy gyfres o synwyryddion awtomatig yn eu cartref yw teleofal. Mae teleofal yn ffordd ataliol o gynnig gofal o bell i drigolion, ac mae'n gallu helpu i leihau risgiau o fewn y cartref a galluogi pobl i barhau i fyw bywyd mor annibynnol â phosib (Cyngor Gwynedd, 2023). Mae ymchwil wedi darganfod fod teleofal yn oedi'r angen am ofal cartref ffurfiol (Wright, 2020). Felly gwelir nad yw'r gwasanaeth yn galluogi unigolion i fyw yn annibynnol yn unig, ond mae hefyd yn arbed costau i wasanaethau cymdeithasol (Wright, 2020)

**3.4.2** Gellir gweld mwy o wybodaeth am y gwasanaeth teleofal yma.


**3.4.3** Tyfu mae'r defnydd o dechnoleg yn y maes gofal, a gwelir hyn ar lefel genedlaethol ac yn lleol (Whitfield & Hamblin, 2023). Ym mis Ionawr 2024 roedd oddeutu 1,550 o unigolion yn elwa o dechnoleg gynorthwyol yng Ngwynedd, a'r bwriad yw cynyddu'r nifer yma i'r dyfodol a gweithio i gwrdd ag anghenion unigolion mewn ffyrdd newydd ac arloesol drwy fuddsoddi mewn ac arbrofi gyda thechnoleg sy'n newydd i'r farchnad.

**3.4.4** Seiliwyd y data isod ar gynnydd yn y boblogaeth heb ddim newid i'r gwasanaeth teleofal. Mae datblygu a hyrwyddo gwasanaeth teleofal yn rhan bwysig o strategaeth yr adran i'r dyfodol agos. Bydd yr ail rhan (adran 7) o'r adroddiad yma yn sôn mewn mwy o fanylder am y datblygiad yma.

**3.4.5** Cafodd y nifer o unigolion gyda phecyn teleofal ei gyfrifo drwy gymryd ciplun o nifer yr unigolion gyda phecyn teleofal yng Ngwynedd yn yr ail wythnos o Fai 2023.

**Tabl 6: Rhagfynegai nifer o becynnau teleofal bydd angen eu darparu i unigolion 65+ dros y 20 mlynedd nesaf**

| Grŵp Oedran | 2023 | 2033 | 2043 |
|---|---|---|---|
| **65-69** | 70 | 85 | 69 |
| **70-74** | 81 | 85 | 87 |
| **75-79** | 156 | 161 | 193 |
| **80-84** | 300 | 376 | 441 |
| **85-89** | 401 | 562 | 563 |
| **90+** | 386 | 448 | 604 |
| **Cyfanswm 65+** | **1,396** | **1,717** | **1,957** |




Siart 11: Rhagfynegai o’r pecynnau Teleofal fydd angen eu darparu i unigolion dros y 20mlynedd nesaf.

**Tu ôl i’r data:**

**3.4.6** Dengys y graff dros yr ugain mlynedd nesaf fod y nifer o becynnau teleofal yn cynyddu ar gyfer pob grŵp oedran heblaw categori oedran 65-69 sy'n cynyddu dros y deng mlynedd nesaf ond yna'n dechrau gostwng.

**3.4.7** Mae’r data yma yn seiliedig ar effaith newid demograffig ar y ddarpariaeth bresennol yn unig, heb ystyried ymyrraeth a newid i’r gwasanaeth. Ar hyn o bryd mae’r gwasanaeth teleofal yn gweithio ar nifer o bethau i wella’r hyn sydd ar gael i drigolion ac i gynyddu defnydd ac ymwybyddiaeth o’r gwasanaeth.

**3.4.8** Yn ddiweddar mae’r gwasanaeth wedi cychwyn gweithio gyda chwmni Chiptech er mwyn sicrhau bod Cyngor Gwynedd yn cynnig offer teleofal digidol sydd yn cwrdd anghenion unigolion heddiw ac wedi’r Trosglwyddiad Digidol yn 2025. Yn ogystal, mae’r gwasanaeth yn gweithio i gyflymu’r broses cofrestru fel bod modd i unigolion

neu deuluoedd gael mynediad at becyn teleofal drwy lenwi ffurflen syml ar wefan y Cyngor. Bydd y gwelliannau yma'n gweithio law yn llaw gydag ymgyrch marchnata traddodiadol e.e. pamffledi mewn meddygfeydd lleol, negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol ac mewn papurau bro, i drio sicrhau bod Cyngor Gwynedd yn defnyddio technoleg i'w llawn botensial.

**3.4.9** Ar y llaw arall, bydd y gwasanaeth yn ymchwilio a threialu technoleg newydd i geisio canfod ffyrdd newydd ac arloesol o gwrdd anghenion unigolion Gwynedd a gweithredu mewn ffyrdd mwy ataliol e.e. roboteg, deallusrwydd artiffisial ayyb. Ceir mwy o drafodaeth am y gwaith hwn yn Rhan 8.3.

## 3.5 Taliadau Uniongyrchol

> "*I see direct payments, personal cash budgets, and other ways of extending choice and control as key to developing social care for the twenty-first century" (Parliamentary Under Secretary of State for Community Care, Department of Health, 2004, in Fernandez et al 2006, pp97)*

**3.5.1** Taliadau uniongyrchol yw pan mae awdurdodau lleol yn gwneud taliadau i unigolion yn lle darparu gwasanaethau gofal, er mwyn galluogi'r unigolyn i drefnu eu gofal ei hunain. Nod taliadau uniongyrchol yw gwella dewis, rheolaeth ac annibyniaeth unigolion (Gofal Cymdeithasol Cymru, 2022).


**3.5.2** Gellir gweld mwy o wybodaeth am y gwasanaeth taliadau uniongyrchol yma.

**3.5.3** Ym mis Rhagfyr 2023 mewnoliwyd y Gwasanaeth Taliadau Uniongyrchol oherwydd problemau gyda'r gwasanaeth blaenorol. Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth yn cael ei drawsnewid i ddatblygu ffordd mwy effeithiol ac effeithlon o ddarparu, ac sy'n anelu at hyrwyddo taliadau uniongyrchol yn well i ddefnyddwyr gwasanaeth a'i gwneud yn haws i unigolion ddefnyddio taliadau uniongyrchol yn effeithiol. Mae'r gwaith trawsnewid y gwasanaeth yma yn rhan graidd o'n strategaeth. Ceir mwy o drafodaeth yn rhan 2 (7.1) am y gwaith yma.

**3.5.4** Cafodd nifer yr oriau gofal wythnosol ddarparwyd trwy daliadau uniongyrchol ei gyfrifo drwy gymryd ciplun o oriau gofal gafodd eu darparu yng Ngwynedd yn ystod yr ail wythnos o Fai 2023.

**Tabl 7: Rhagfynegai nifer o oriau gofal ddarperir drwy Daliadau Uniongyrchol bydd angen eu darparu i unigolion 65+ dros y 20 mlynedd nesaf**

| Grŵp Oedran | 2023 | 2033 | 2043 |
|---|---|---|---|
| **65-69** | 16 | 20 | 16 |
| **70-74** | 155 | 159 | 163 |
| **75-79** | 480 | 490 | 588 |
| **80-84** | 176 | 220 | 254 |
| **85-89** | 367 | 515 | 502 |
| **90+** | 391 | 435 | 568 |
| **Cyfanswm 65+** | **1,584** | **1,839** | **2,092** |




Siart 12: Rhagfynegai o'r nifer oriau wythnosol taliadau uniongyrchol fydd angen eu darparu i unigolion 65+ dros y 20 mlynedd nesaf.

**Tu ôl i'r data :**

**3.5.5** Dengys y graff y bydd, dros yr ugain mlynedd nesaf, y nifer o oriau gofal taliadau uniongyrchol yn cynyddu ar gyfer pob grŵp oedran heblaw categori oedran 65-69 sy'n cynyddu dros y deng mlynedd nesaf ond yna'n dechrau gostwng.

**3.5.6** Ar hyn o bryd mae'r niferoedd sydd yn derbyn taliadau uniongyrchol yn isel iawn o'i gymharu â'r nifer o oriau gofal cartref traddodiadol sydd yn cael eu darparu. Rydym yn gobeithio bydd y niferoedd sydd yn dewis defnyddio'r gwasanaeth taliadau uniongyrchol yn tyfu dros y blynyddoedd nesaf. Canolbwyntia ail ran (adran 7) yr adroddiad yma ar hyn.

### 3.6 Tai Gofal Ychwanegol


**3.6.1** Tai gofal ychwanegol yw fflatiau hunangynhaliol i bobol hŷn, lle caiff gofal a chefnogaeth eu darparu yn ôl yr angen. Mae tai gofal ychwanegol yn cynnig amgylchedd lle mae gofal a chymorth yn agos wrth law, ond lle gellir cadw ffordd annibynnol o fyw cyn belled ag y bo modd (Llywodraeth Cymru, 2006).

**3.6.2** Mae yna dri safle(cynllun) tai gofal ychwanegol yng Ngwynedd. Mae'r rhain yn ardaloedd Bangor, Bala a Porthmadog. Grwp Cynefin sydd yn rhedeg cynllun Awel y Coleg, Y Bala, a Hafod y Gest, Porthmadog, gyda'r Cyngor yn darparu'r gofal ynddynt. Tai Gogledd Cymru sydd yn rhedeg Cae Garnedd, Bangor, gyda Cartrefi Cymru yn darparu'r gofal ynddo. Y Cyngor sydd yn gyfrifol am safleoedd Bala a Phorthmadog tra fod safle Bangor yn cael ei redeg gan Cartrefi Cymru. Mae yna gyfanswm o 102 o fflatiau tai gofal ychwanegol ar draws y safleoedd yma.

**3.6.3** Ar hyn o bryd mae bwriad edrych ar safleoedd ar gyfer tai gofal ychwanegol newydd yng Ngwynedd er mwyn cynyddu'r capasiti. Gweler fwy o fanylder yn rhan 7.

**Tabl 8: Rhagfynegai nifer o oriau gofal ddarperir drwy Dai Gofal Ychwanegol fydd angen eu darparu i unigolion 65+ dros y 20 mlynedd nesaf**

| **Grŵp Oedran** | **2023** | **2033** | **2043** |
|---|---:|---:|---:|
| **65-69** | 43 | 49 | 39 |
| **70-74** | 23 | 24 | 24 |
| **75-79** | 45 | 49 | 60 |
| **80-84** | 94 | 114 | 135 |
| **85-89** | 110 | 149 | 147 |
| **90+** | 179 | 186 | 241 |
| **Cyfanswm 65+** | **492** | **573** | **647** |




Siart 13: Rhagfynegai o'r nifer oriau wythnosol tai gofal ychwanegol fydd angen eu darparu i unigolion 65+ dros y 20 mlynedd nesaf.

**Tu ôl i'r data:**

**3.6.4** Dengys y graff, dros gyfnod yr ugain mlynedd nesaf, bod nifer yr oriau tai gofal ychwanegol wythnosol yn cynyddu ar gyfer pob grŵp oedran heblaw categori oedran 65-69 sy'n cynyddu dros y deng mlynedd nesaf ond yna'n dechrau gostwng.

**3.6.5** Rydym yn gobeithio bydd y niferoedd o safleoedd tai gofal ychwanegol yn tyfu dros y blynyddoedd nesaf. Ar hyn o bryd mae ardaloedd Pwllheli (Penyberth), Penygroes, Caernarfon a Dolgellau wedi'u blaenoriaethu ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol agos. Mae safle wedi cael ei adnabod yng Nghaernarfon a Phenygroes, ond parheir i chwilio am safle addas yn Nolgellau.

**3.6.6** Yn ychwanegol i'r gwaith uchod mae gwaith ar fin cychwyn ar y cyd gyda'r adran Dai i greu cynllun deng mlynedd ar hugain ar gyfer anghenion tai pobl hŷn Gwynedd. Bydd y gwaith yma yn mynd i fewn i fwy o fanylder ar fapio Gwynedd yn ôl anghenion demograffeg, gwasanaethau presennol, ac opsiynau darpariaeth llety presennol.

**3.7.7** Bydd ail ran (rhan 7) yr adroddiad yma yn canolbwyntio ar ehangu y defnydd o dai gofal ychwanegol yn Ngwynedd, a bydd yr adroddiad gan yr Adran Dai maes o law yn cynnwys mwy o fanylder.

## 3.7 Staffio

> ***"Mae nifer y bobl â salwch mawr yn cynyddu'n gyflymach na'r boblogaeth oedran gweithio" (Comisiwn Bevan,2024)***

**3.7.1** Dyma'r rhagamcanion poblogaeth oed gwaith diweddaraf ar gyfer Gwynedd gan Lywodraeth Cymru (wedi'u seilio ar ddata poblogaeth 2018), wedi eu haddasu rywfaint i adlewyrchu'r lleihad ym mhoblogaeth Gwynedd yng Nghyfrifiad 2021 (mwy o wybodaeth yn y fethodoleg). Fel nodwyd yn rhan 1 uchod, yng ngoleuni data'r Cyfrifiad mae'n bosib iawn y bydd y set nesaf o ragamcanion poblogaeth (gyhoeddir yn 2025) yn darogan gostyngiad ym maint y boblogaeth oed gwaith dros y ddau ddegawd nesaf. Un ffordd neu'r llall, ni fydd y boblogaeth oed gwaith yn tyfu ar yr un raddfa â'r twf tebygol yn y boblogaeth hŷn fydd angen gofal.


**Tabl 9: Rhagfynegai poblogaeth Oed Gwaith Gwynedd yn 2033 a 2043**

| Grŵp Oedran | 2021 | 2033 | 2043 |
|---|---:|---:|---:|
| **16-25** | 15,590 | 17,283 | 16,335 |
| **26-35** | 13,002 | 12,302 | 13,478 |
| **36-45** | 11,748 | 14,249 | 13,359 |
| **46-55** | 15,474 | 13,521 | 15,354 |
| **56-65** | 16,338 | 15,324 | 14,644 |
| **Cyfanswm oed gwaith (16-65)** | **72,152** | **72,679** | **73,170** |

**3.7.2** Mae'r heriau i recriwtio yn y sector gofal yn adnabyddus. Yn 2023 roedd yna 13,000 o swyddi gwag ar draws y maes iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru (Flannagan, 2024), a 165,000 yn Lloegr (Fox et al., 2023). Fel y gwelir uchod ni

ddisgwylir i'r nifer unigolion oed gwaith yng Ngwynedd dyfu ar yr un raddfa ag y mae niferoedd oedolion hŷn yn cynyddu. Disgwylir, felly, i'r heriau gynyddu.

**3.7.3** O edrych yn benodol ar broffil oedran y gweithlu sy'n darparu gofal i oedolion 65+ oed yng Ngwynedd ar hyn o bryd, fe welir o'r siart isod fod yna duedd bendant iddynt fod yn y grwpiau oedran hŷn, gyda dros hanner gweithlu mewnol y Cyngor yn 46 oed neu hŷn (mae'n debygol fod patrwm tebyg yn bodoli ymysg gweithlu darparwyr gofal allanol, ond mae wedi profi'n anodd cael gwybodaeth gyflawn am hyn). Mae angen ymchwil pellach i astudio'r tueddiadau yn y maes yma; os oes mwy o bobl hŷn yn cael eu denu at weithio yn y maes gofal neu os nad yw'r maes gofal yn faes mae pobl ifanc eisiau gweithio ynddo.




Siart 14: Cyfran fesul grŵp oed gweithlu gofal fewnol Oedolion Cyngor Gwynedd (2022)

**3.7.4** Gwasanaethau cymdeithasol yw un o brif bileri economi Gwynedd a Chymru. Yn 2016 canfu Gofal Cymdeithasol Cymru (2018) fod gwasanaethau oedolion yn unig werth £2.2b i Gymru ac yn gyfrifol am 126,800 o swyddi. Dengys yr adroddiad hefyd fod gwasanaethau cymdeithasol i oedolion yn fwy gwerthfawr i'r economi na amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota, y celfyddydau, adloniant a hamdden a chyflenwad dŵr, carthffosiaeth a rheoli gwastraff. Ceir grym comisiynu sylweddol drwy'r gwasanaethau cymdeithasol yng Nghymru.

**3.7.5** Mae gwasanaethau cymdeithasol Gwynedd (gan gynnwys gwasanaethau plant, anabledd ac oedolion, yn ogystal a gwasanaethau pobl hŷn) yn gyfrifol am dros 3,000 o swyddi yn y sir. Cyflogir 1,549 unigolyn yn uniongyrchol a chydag oddeutu yr un nifer eto yn gyflogedig drwy gomisiynu gan yr adran neu drwy daliadau uniongyrchol. Dengys cyllideb refeniw 2023/24 fod yr Adran Oedolion yn gyfrifol am £96m (gros) o gyllid, a'r Adran Plant yn gyfrifol am £31m (gros), cyfanswm o £127m (gros). Mae'n debygol fod gofal cymdeithasol yn un o brif ddiwydiannau Gwynedd ym mhob ystyr.


**3.7.6** Yng Ngwynedd ceir nifer o swyddi gwahanol o dan fantell gwasanaethau cymdeithasol. Cyngor Gwynedd yw cyflogwr nifer o'r swyddi yma e.e. gweithwyr cymdeithasol, therapyddion galwedigaethol, gofalwyr cartref, gofalwyr preswyl ayb, tra fod nifer o gwmnïau allanol yn cyflogi gofalwyr cartref a phreswyl.

**3.7.7** Seiliwyd y ffigyrau yn y tabl isod am lefel staffio cyfredol gwasanaethau gofal i bobl 65+ oed ar ddata ddarparwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru (heblaw gwybodaeth taliadau uniongyrchol) ac mae'n cynnwys gweithlu mewnol y Cyngor a darparwyr allanol sy'n gweithredu yng Ngwynedd (gan amcangyfrif, ar sail yr wybodaeth orau sydd ar gael, faint o'r staff gofal hynny sy'n gofalu am bobl 65+ oed; mae mwy o fanylion am y methodoleg yn Atodiad 1). Rydym wedi cynnwys ffigyrau staff rheng flaen yn unig; nid yw staff swyddfa gefn (er enghraifft gweinyddol a rheolaeth) wedi'u cynnwys yn yr adroddiad yma. Mae'r ffigyrau taliadau uniongyrchol wedi'u seilio ar yr amcan fod pob un defnyddiwr gwasanaeth yn derbyn gwasanaeth gan ddau aelod o staff.


**3.7.8** Ar y sail yma, modelwyd hefyd y nifer ychwanegol o staff i ddiwallu'r rhestr aros gyfredol, a'r nifer ragwelir fyddai ei angen yn 2033 a 2043, gan ddefnyddio y canrannau cynnydd mewn anghenion gofal gyfrifwyd yn y model anghenion gofal ar gyfer pob ffrwd gofal yn unigol (gweler Atodiad 1 am fanylion y methodoleg).

**Tabl 10: Niferoedd staff cyfredol gofal oedolion 65+ oed (staff mewnol Cyngor Gwynedd a staff darparwyr allanol yng Ngwynedd), a rhagfynegai o'r nifer fyddai angen i ddiwallu anghenion gofal y dyfodol**

| Maes gwaith | Nifer staff 2023 | 2023 (rhestr aros) | 2033 | 2043 |
|---|---|---|---|---|
| **Gofal Cartref** | 587 | 105 | 848 | 956 |
| **Gofal Preswyl + Nyrsio (heblaw Dementia)** | 742 | 57 | 964 | 1,134 |
| **Gofal Preswyl + Nyrsio (Dementia)** | 318 | 23 | 416 | 488 |
| **Taliadau Uniongyrchol** | 57 | - | 66 | 75 |
| **Tai Gofal Ychwanegol** | 15 | - | 17 | 20 |
| **Gweithwyr Cymdeithasol + Therapyddion** | 99 | - | 121 | 137 |
| **Cyfanswm gweithlu perthnasol** | **1,818** | **185** | **2,434** | **2,809** |




Siart 15: Rhagfynegai o'r nifer o staff ychwanegol fydd angen i ddarparu gofal i unigolion 65+ oed, yn gwasanaethau gofal cymdeithasol gwahanol, dros yr 20 mlynedd nesaf.




Siart 16: Heb ymyrraeth, nifer o staff dros y capasiti presennol rhagamcanwyd fydd angen i ddarparu gwasanaethau cymdeithasol dros y 20mlynedd nesaf.

**Tu ôl i'r data:**

**3.7.9** Tystiolaetha'r siart uchod mai yn y meysydd gofal cartref a gofal preswyl / nyrsio (heblaw dementia) y mae'r grŵp mwyaf o weithlu; ac mai y rhain yw'r meysydd â'r mwyaf o ddefnyddwyr gwasanaeth. Mae'r siart yn dangos y bydd angen mwy o weithlu ym mhob un maes dros yr ugain mlynedd nesaf. Mae niferoedd staff yn isel iawn yn y meysydd tai gofal ychwanegol a thaliadau uniongyrchol; bydd rhan dau yn trafod fwy sut rydym yn gobeithio bydd y meysydd yma yn tyfu, gyda'r gobaith o leihau'r angen mewn gofal cartref a gofal preswyl / nyrsio.

**3.7.10** Dengys hefyd ein bod eisoes yn brin o weithlu ac, o'r herwydd, yn methu diwallu'r angen am wasanaethau cymdeithasol. Defnyddiwyd y rhestr aros i gyfrifo faint o weithlu ychwanegol y byddai eu hangen i ddiwallu anghenion y rhestr aros. Amcangyfrifwyd fod y Cyngor yn brin o 185 aelod o'r gweithlu yn 2023. Yn yr ugain

mlynedd nesaf bydd y nifer ychwanegol o weithlu angenrheidiol yn tyfu oddeutu 40%. Nid oes cyllideb i gyflogi'r unigolion ychwanegol hyn.

**3.7.11** Nid cyllideb yn unig sy'n bryder o ran staffio. Mae'n fater recriwtio hefyd. Yn hanesyddol mae gofal cymdeithasol wedi cael trafferth recriwtio oherwydd nifer o bethau megis cyflogau, diogelwch swyddi ac oriau gwrthgymdeithasol (Colton & Roberts, 2006).

**3.7.12** Cynrychiola'r 1,818 o staff yr amcangyfrifir sy'n gweithio ym maes gofal oedolion 65+ yng Ngwynedd ar hyn o bryd, tua 3.5% o boblogaeth oed gwaith y sir sy'n economaidd-weithgar. Pe byddai angen cynyddu hyn i 2,809 erbyn 2043 (fel y mae'r model yn ei awgrymu), ac ar sail y rhagamcanion ar gyfer poblogaeth oed-gwaith y dyfodol, erbyn 2043 byddai angen i 5.3% o boblogaeth oed-gwaith economaidd-weithgar Gwynedd fod yn gweithio yn y sector yma. Mae hyn yn amlygu'r her ychwanegol fyddai yna i lenwi'r swyddi fyddai eu hangen yn y maes.

**3.7.13** Mae'n bosibl y gallai unrhyw dueddiad i bobl barhau yn y gweithlu am fwy o amser yn y dyfodol (h.y. ymddeol yn hŷn) helpu i raddau bychan gyda'r her yma. Ond gan bod cwestiwn am addasrwydd rhai swyddi gofal i lawer o bobl oedran hŷn allu gweithio ynddynt, a'r ffaith bod disgwyliad oes iach yn aros yn gyson yn gyffredinol er bod disgwyliad oes yn cynyddu (Comisiwn Bevan, 2024), mae hyn yn annhebygol o wneud llawer o wahaniaeth o'i gymharu â'r cynnydd mawr tebygol yn y galw am ofal.

**3.7.14** Mae gwaith yn digwydd yng Ngwynedd i wynebu'r heriau yma. Yn y flwyddyn ariannol 2023-24 trefnwyd 75 digwyddiad ar gyfer recriwtio ar gyfer gwaith cymdeithasol, roedd rhain yn cynnwys digwyddiadau yn yr Eisteddfod Genedlaethol, Prifysgol Bangor a cholegau addysg bellach. Ar ben y gwaith yma mae gwaith hyrwyddo'r maes gofal cymdeithasol yn digwydd dros gyfryngau cymdeithasol, platfformau mewnol a drwy gyfweliadau radio. Yn y cyfnod 2023-24 mae 145 o brofiadau gwaith wedi cael eu trefnu drwy golegau lleol.

**3.7.15** Dechreuwyd gwaith cefndirol ar gyfer ariannu Academi Gofal lle mae unigolion yn ymuno â gwasanaethau gofal i ddilyn llwybrau gyrfa bendant i fod yn Weithiwr Cymdeithasol, Rheolwr neu Therapydd Galwedigaethol. Y gobaith yw ychwanegu

nyrsys i'r rhestr yma yn y dyfodol. Wrth weithio at y rolau yma bydd unigolion yn llenwi bylchau o fewn y gwasanaethau.

**3.7.16** Er bod gwaith pwysig yn cael ei wneud i gynyddu lefelau staffio, mae'n bwysig nodi nad yw’n realistig i barhau i gynyddu lefelau staffio i gwrdd â’r angen, felly rydym angen newid y ffordd rydym yn gweithio i wneud yn siŵr fod gwasanaethau cymdeithasol yn gynaliadwy yn y dyfodol. Bydd hyn yn cael ei drafod yn rhan 2.

# 4 Cyllid

**4.0.1** Gofal Cymdeithasol yw un o brif feysydd gwariant Cyngor Gwynedd, gyda'r gwariant ar ofal cymdeithasol i Oedolion yn cyfateb i bron i 25% o wariant y Cyngor yn ystod 2022/23 (MYNEGAI (llyw.cymru).

**4.0.2** Bu gorwariant ym maes gwasanaethau cymdeithasol oedolion ers rhai blynyddoedd. Er hyn ni lwyddwyd i ateb y galw am wasanaethau yn llawn, gan weld rhestrau aros mewn meysydd megis; Gofal Cartref a Preswyl a Nyrsio.

**4.0.3** Fe gyflwynir yma y gost o gyflawni'r anghenion gofal ychwanegol a ddeillir o ddwy elfen;

i. Cyflawni'r holl ofal ychwanegol sydd ei angen nawr, er mwyn diddymu'r rhestrau aros (rhan 4.1)

ii. Cynnydd yn yr angen am ofal yn sgil newidiadau demograffeg (rhan 4.2)


Gweler atodiad 2 am fwy o fanylion ar sut mae'r ffigyrau hyn wedi eu cyfrifo.

### 4.1 Cost cyflawni'r holl ofal ychwanegol sydd ei angen nawr, er mwyn diddymu'r rhestrau aros

**4.1.1** Dengys tabl 11 fod darpar-gost gros ychwanegol o £4.5M pe gellid diddymu'r rhestrau aros a chyflawni'r holl ofal ychwanegol sydd ei angen nawr ar draws y tair ffrwd gofal, drwy recriwtio'r gweithlu angenrheidiol.

**Tabl 11: Cost y rhestrau aros presennol ar gyfer y tair ffrwd gofal**

| Ffrwd Gofal | Cyflawni'n 2023 | Anghenion 2023 | Rhestr Aros |
|---|---|---|---|
| Gofal Cartref | £11.8M | £13.9M | £2.1M |
| Gofal Preswyl / Nyrsio | £24.4M | £25.7M | £1.3M |
| Gofal Preswyl / Nyrsio (Dementia) | £9.4M | £10.5M | £1.1M |
| **Cyfanswm 65+** | **£45.6M** | **£50.1M** | **£4.5M** |




Siart 17: Cost cyflawni'r gofal ar gyfer rhestrau aros presennol


### 4.2 Cynnydd yn yr angen am ofal yn sgil newidiadau demograffeg

**4.2.1** Bydd cynnydd yn yr angen am ofal yn sgil newidiadau demograffeg. Fe ddengys tabl 12 a siart 18 y gost gros o gyflawni'r gofal ar dri pwynt mewn amser; ar y lefel a gyflawnir yn 2023, yn 2033 ac yn 2043 yn seiliedig ar yr amcanion demograffeg. Yn

ogystal, fe nodir y cynnydd mewn angen cyllidol ymhen 10 ac 20 mlynedd i'w gymharu â'r hyn a gyflawnir yn 2023.

**Tabl 12: Cymhariaeth o'r gost o gyflawni'r dair ffrwd gofal yn 2023 gyda amcanion 2033 a 2043, gan arddangos y costau yn cynyddu**

| Ffrwd Gofal | Cost Presennol (2023) | Rhestr aros 2023 | Amcan 2033 | Amcan 2043 |
|---|---|---|---|---|
| Gofal Cartref | £11.8M | £2.1M | £16.5M | £18.4M |
| Gofal Preswyl / Nyrsio | £24.4M | £1.3M | £30.9M | £36.4M |
| Gofal Preswyl / Nyrsio (Dementia) | £9.4M | £1.1M | £12.9M | £15.1M |
| **Cyfanswm** | **£45.6M** | **£4.5M** | **£60.3M** | **£69.9M** |
| **Cynnydd ar Cost Presennol '23** | | | **£14.7M** | **£24.3M** |




Siart 18: Rhagfynegai o’r angen cyllidol ychwanegol fydd angen i ddarparu gofal cartref a gofal preswyl a nyrsio dros yr 20 mlynedd nesaf (nid yw’n cynnwys chwyddiant).

**Tu ôl i’r data:**

**4.2.2** Fe ddengys tabl 11 fod cost gros ychwanegol o £4.5M er mwyn diddymu’r rhestrau aros presennol, i gyflawni’r holl ofal ychwanegol sydd ei angen nawr ar draws y tair ffrwd gofal.

**4.2.3** Dengys tabl 12 bydd yr angen cyllidol yn cynyddu £14.7M ymhen 10 mlynedd, a £24.3M ymhen 20 mlynedd i’w gymharu â’r hyn a gyflawnwyd yn 2023. Deillir y cynnydd hyn o’r newid demograffeg yn ogystal â’r angen i ddiddymu’r rhestrau aros presennol.

**4.2.4** Mae’n hanfodol nodi fod y cynnydd £4.5M yn bodoli nawr ac fod y cynnydd yn sgil newid demograffeg yn gynnydd graddol ond a gychwynnir nawr, ac sydd yn gost cyfansawdd parhaus.

# 5. Crynodeb Rhan 1:

**5.1** Mae Adran 1 wedi ein tywys drwy chwech gwasanaeth; Gofal preswyl/ nyrsio; Gofal preswyl/ nyrsio Dementia; Gofal Cartref; Teleofal; Taliadau Uniongyrchol; Tai Gofal Ychwanegol. Ymhellach, amlyga adran 1 wybodaeth staffio a chyllid y gwasanaethau yma. Dengys sut, dros y ddeng mlynedd a'r ugain mlynedd nesaf, y bydd y pwysau ar y gwasanaethau pobl hŷn yn cynyddu ar raddfa arwyddocaol dros ben. Os nad yw Gwynedd yn newid y ffordd o weithredu, ni fydd modd diwallu'r angen, felly, mae'n hanfodol bod ffordd newydd o weithio yn cael ei fabwysiadu.

**5.2** Canolbwyntia Adran 2 ar chwe dull lliniaru a gynigir all ein helpu i leihau'r pwysau ar wasanaethau gofal cymdeithasol traddodiadol. Mae gwneud y newidiadau hyn yn hanfodol yn gynt yn hytrach nag yn hwyrach.

# RHAN 2

# 6. Cyflwyniad rhan 2

**6.1** Yn ail ran yr adroddiad yma canolbwyntir ar yr hyn y gellid ei wneud yng Ngwynedd i geisio goresgyn yr heriau drafodwyd uchod. Fe'i rhennir yn ddwy adran:

**6.2** Yn gyntaf, edrychir ar effeithiau posib trawsnewid darpariaeth gwasanaethau yn unol â'r cymedr ar draws y siroedd gwledig cymharol. Er enghraifft, ystyrir effaith lleihau'r nifer unigolion mewn cartrefi preswyl a nyrsio i gyd-fynd â'r cymedr yn y siroedd gwledig cymharol.

**6.3** Canolbwyntia ail adran y rhan yma ar effaith posib gweithio'n arloesol a chyflwyno syniadau newydd i'r bwrdd. Darperir braslun o'r syniadau hyn yn rhagarweiniad y ddwy adran.

### 6.4 Rhagdybiaethau allweddol

**6.4.1** Oherwydd natur arloesol rhai o'r dulliau lliniaru posib a drafodir, mae'n anodd modelu yn union faint o gyfraniad y gallent ei wneud tuag at leihau'r pwysau ar wasanaethau. Fodd bynnag, dangosir syniad o faint y gellid lleddfu'r angen ychwanegol am wasanaethau gofal traddodiadol i'r dyfodol.

**6.4.2** I wneud hyn, edrychwyd ar batrwm presennol darpariaeth gofal yn siroedd gwledig Cymru – sef y siroedd sydd â dwysedd poblogaeth is na chyfartaledd Cymru (Ystadegau ar gyfer Cymru, 2008); mae'r siroedd yma yn eithaf tebyg o ran eu nodweddion demograffig a chymdeithasol-economaidd yn ogystal. Ceir 9 awdurdod yn y categori hwn: Gwynedd; Ynys Môn; Conwy; Sir Ddinbych; Powys; Ceredigion; Sir Benfro; Sir Gaerfyrddin a Sir Fynwy.

**6.4.3** Defnyddiwyd nifer o ffynonellau i leoli'r ffigyrau sylfaenol presennol ar gyfer pob un o'r siroedd gwledig ar gyfer pob un o'r chwe gwasanaeth a drafodwyd yn Rhan 1.

**6.4.4** Defnyddiwyd data Llywodraeth Cymru* ar gyfer ffigyrau sylfaenol gofal cartref, gofal preswyl a nyrsio. Ar gyfer ffigyrau Teleofal defnyddiwyd adroddiad TEC Cymru (TEC Cymru, 2021). Ar gyfer data Taliadau Uniongyrchol defnyddiwyd adroddiad Archwilio Cymru (Archwilio Cymru, 2022). Yn olaf ar gyfer ffigyrau Tai Gofal Ychwanegol defnyddiwyd adroddiad Housing LIN (Housing LIN, 2020). Er mwyn gallu

cymharu ffigyrau awdurdodau ar sail tebyg fe ddefnyddiwyd y nifer o unigolion yn derbyn gofal, neu oriau gofal, fesul 100,000 poblogaeth, gan hefyd addasu ffigyrau meysydd gofal preswyl a gofal cartref ar gyfer maint y rhestr aros am ofal ym mhob un o'r siroedd.

**6.4.5** Defnyddiwyd y data yma wedyn i fodelu effaith posib gweithio tuag at y cymedr gwledig, a gweithio'n arloesol, ar gyfanswm oriau gofal wythnosol, a chyfanswm cyllid, y tair ffrwd gofal 'traddodiadol', hynny yw gofal cartref, gofal preswyl a nyrsio (heblaw dementia) a gofal preswyl a nyrsio (dementia).

**6.4.6** Modelwyd hefyd yr effaith posib ar gyfanswm y gweithlu fyddai ei angen (gan gynnwys yma yr holl ffrydiau gofal presennol, yn hytrach na dim ond y tair ffrwd gofal 'traddodiadol', gan ei bod yn anodd gwahaniaethu hyn yn y ffigyrau oherwydd bod rhai o'r gweithlu yn tueddu i wneud mwy nag un rôl – tuedd fydd efallai yn cynyddu wrth i ddulliau darparu gofal newid). Fodd bynnag nid yw hyn yn cynnwys unrhyw weithlu ychwanegol fyddai eu hangen ar gyfer unrhyw ddull arloesol newydd o ddarparu gofal.

**6.4.7** Mae'r ffigyrau a'r siartiau yn rhan yma yr adroddiad, felly, yn ymgais i roi syniad am sut y gallai dilyn y trywydd a awgrymir i drawsnewid darpariaeth gwasanaethau, leihau rhywfaint ar yr oriau gofal (a drwy hynny, y cyllid a'r gweithlu) ychwanegol fyddai eu hangen i ddygymod ag effaith pwysau demograffig y dyfodol. Gwneir hyn ar sail y dybiaeth, os yw cyngor / cynghorau eraill tebyg yn darparu rhai o'r ffrydiau gofal traddodiadol ar lefel is yna fe allai fod yn bosib cyrraedd lefelau tebyg yng Ngwynedd, o ddilyn y trywydd a awgrymir yn yr adroddiad. Gan fod y maes yn un sydd yn datblygu fe all y bydd mwy o dystiolaeth ar gael yn y dyfodol i ddangos effaith fwy penodol y dulliau arfer gorau ac arloesol ar anghenion gofal, a bydd angen parhau i gadw golwg ar y sefyllfa ac ail fodelu yng ngoleuni unrhyw wybodaeth newydd.

* *Ni ddatgelwyd ffynhonnell y data yma yn yr adroddiad gan y'i rhennir yn gyfrinachol.*

## 7. Gweithio tuag at y cymedr gwledig

**7.1** Cyfrifwyd cymedr y cynghorau gwledig ar gyfer pob gwasanaeth (gofal cartref, gofal preswyl/ nyrsio, taliadau uniongyrchol, teleofal a thai gofal ychwanegol) ar y sail a amlinellwyd yn 6.4 uchod. Gan fwriadu gweithio tuag at darged cymedr siroedd gwledig, ni gynhwyswyd Gwynedd wrth ei gyfrifo.

**Tabl 13: Pellter Gwynedd o'r cymedr gwledig ar draws gwahanol ffrydiau gwasanaethau cymdeithasol**

| **Gwasanaeth** | **% gwahaniaeth Gwynedd o'r cymedr gwledig** |
|---|---|
| Gofal Cartref | +11% |
| Gofal Preswyl / Nyrsio | +16% |
| Teleofal | -68% |
| Taliadau Uniongyrchol | -133% |
| Tai Gofal Ychwanegol | +36% |

**Tu ôl i'r data:**


**7.2** Dengys y data fod Gwynedd yn uwch na'r cymedr gwledig ar gyfer gwasanaethau mwy traddodiadol, gofal cartref a gofal preswyl a nyrsio. Ar gyfer y gwasanaethau ataliol a ddatblygwyd yn fwy diweddar mae Gwynedd yn is na'r cymedr gwledig, heblaw am wasanaeth tai gofal ychwanegol.

**7.3** Ar hyn o bryd mae Gwynedd yn uwch na siroedd gwledig eraill o ran eu darpariaeth tai gofal ychwanegol; fodd bynnag mae llawer o'r siroedd gwledig yn y broses o gynyddu eu darpariaeth yn y maes yma felly mae'n debygol y byddwn ar ei hôl hi o fewn y blynyddoedd nesaf os na fyddwn yn cadw i fyny â datblygiadau.

**7.4** Awgrymir y dylid gweithio tuag at y cymedr gwledig drwy ehangu gwasanaethau ataliol a lleihau'r ddibyniaeth ar wasanaethau traddodiadol. Nod hyn fyddai sefydlogi'r cynnydd a ragwelir rhwng nawr a 2043 a amlygir yn Rhan 1.

**7.5** Eisoes fe wneir gwaith ar ehangu'r defnydd o teleofal a thaliadau uniongyrchol, ac mae cynlluniau ar y gweill ar gyfer mwy o dai gofal ychwanegol. Fodd bynnag, bydd angen llawer mwy o waith i gyrraedd y nod o weithio ar lefel y cymedr gwledig. Y cam nesaf fydd creu cynllun manwl ar gyfer sut y gall yr Adran gyrraedd y targedau yma. Bydd angen arloesi ymhellach hefyd.

**7.6** Mae'r siart isod yn dangos sut gall pethau edrych os rydym yn cyrraedd y cymedr gwledig yn yr ugain mlynedd nesaf. Nid ydym wedi cynnwys tai gofal ychwanegol yn y ffigyrau hyn oherwydd bod lefel y ddarpariaeth ar hyn o bryd yn uwch na'r cymedr gwledig.




Siart 19: Effaith posib cyrraedd y cymedr canrannol gwledig yn 2043 ar anghenion gofal cartref, preswyl a nyrsio yng Ngwynedd

**Tu ôl i'r data:**

**7.7** Dangosir y siart uchod effaith cyrraedd y cymedr gwledig ar gyfanswm angen gofal fwy traddodiadol Gwynedd. Cyflwyna'r siart un senario posib ar gyfer gweithio tuag at y cymedr gwledig, sef effaith lleihau cyfanswm angen gofal traddodiadol Gwynedd at y cymedr gwledig erbyn 2043. Mae'n dangos y byddai'r angen am ofal, ar y sail yma, tua 33% yn uwch na'r capasiti presennol erbyn 2043 (o'i gymharu â thua 56% yn uwch na'r capasiti presennol pe na byddem yn gweithio tuag at y cymedr gwledig). Felly tra bod y senario yma yn dangos lleihad yn y pwysau, ni wnaiff leihau'n ddigonol i alluogi darparu o fewn y capasiti presennol.

**7.8** Gan ddefnyddio'r fethodoleg a amlinellir yn 6.4 uchod, byddai'r effaith ar y cyllid a'r gweithlu ychwanegol angenrheidiol yn dilyn yr un math o batrwm, h.y.:

- Modelir y byddai'r angen cyllidol ar gyfer y ffrydiau gofal yma yn cynyddu o tua £46m yn bresennol i tua £60m erbyn 2043 (yn hytrach na chynyddu i tua £70m, pe na byddem yn gweithio tuag at y cymedr gwledig);
- Modelir y byddai angen am weithlu gofal yn cynyddu o 1,808 yn bresennol i 2,401 erbyn 2043 (yn hytrach na chynyddu i 2,809, pe na byddem yn gweithio tuag at y cymedr gwledig).

**7.9** Awgryma'r data yma bwysigrwydd canolbwyntio ar wasanaethau ataliol heddiw i leihau'r galw ymhen deg ac ugain mlynedd. Byddai hyn yn cefnogi darpariaeth a chyllid Cyngor Gwynedd, ond hefyd byddai'n dda ar gyfer lles unigolion Gwynedd. Cafodd nifer o unigolion Gwynedd fudd eisoes o wasanaethau ataliol. Gweler astudiaethau achos 1 a 2 a amlyga sefyllfaoedd lle mae technoleg a thaliadau uniongyrchol wedi cynorthwyo unigolion i fyw yn annibynnol.

**Astudiaeth Achos 1 – Defnydd taliadau uniongyrchol yn Ngwynedd.**

Mae Mrs Smith yn dynes 67 oed sy’n byw adref gyda’i gŵr. Mae gan Mrs Smith ddiagnosis dementia. Yn ystod Covid daeth yn amlwg nad oedd y teulu'n gallu ymdopi ag anghenion Mrs Smith. Fe ddaethon nhw o hyd i gynorthwyydd personol (PA) o'r enw Jane a ddechreuodd helpu am 7 awr yr wythnos trwy ddefnyddio Taliadau Uniongyrchol. Cynyddodd hyn i fwy na 30 awr yr wythnos erbyn heddiw. Mae Jane yn helpu mewn sawl ffordd o fynd â Mrs Smith allan i'r siopau, ar dripiau dydd, i weld ei ffrindiau ayb. Mae Jane yn teimlo fel aelod o'r teulu a mae Mrs Smith a’r PA yn ffrindiau da.

***“Heb daliadau uniongyrchol fysa mam mewn cartref. Mae mam a dad wedi bod efo’i gilydd am bron i hanner canrif, felly mae cael y gefnogaeth yma adref yn cadw’r teulu efo’i gilydd i allu treulio quality time efo’n gilydd”* – Merch Mrs Smith**

Cost wythnosol taliadau uniongyrchol Mrs Smith yw £488.70. Pe byddai Mrs Smith wedi gorfod symud i mewn i gartref preswyl Dementia byddai’r gost wythnosol yn £855.75 o leiaf.

** Newidiwyd yr enwau i ddiogelu preifatrwydd*

**7.10** Trafodwyd dulliau cydnabyddedig i leihau’r pwysau drwy weithio tuag at y cymedr gwledig, ond fel y dengys siart 19, byddai gwneud hynny’n parhau gyda bwlch yn y gwasanaeth ac mae’n bosib byddai yr angen am ofal yn parhau i fod dros 30% yn uwch na’r capasiti presennol. Gwelir felly yr angen am gynlluniau arloesol pellach a chyflwynir hyn yn yr adran nesaf drwy ystyried roboteg, technoleg AI, gwaith cymunedol a gwaith ar sail cryfder i leihau’r angen am wasanaethau gofal cymdeithasol.

# 8. Gweithio'n arloesol

**8.0.1** Saif yr her wyneba Gwynedd yn glir, a'r gobaith yw drwy weithio tuag at lefel o wasanaethau sydd yn gymharol â'r ymarfer gorau yng Nghymru (7), gellir lliniaru effaith yr her yn rhannol. Er hynny, hyd yn oed pe llwyddid i ddod â'r gwasanaethau yn gymharol gyda'r ymarfer gorau fel mae pethau ar hyn o bryd, bydd bwlch yn parhau rhwng yr angen am wasanaethau gofal a'r adnodd fydd ar gael. Os am gau y bwlch yma yn gyfan gwbl, mae'n anorfod ac yn hanfodol fod Gwynedd yn arloesi ac yn arwain y ffordd o ran datblygu gwasanaethau modern ac addas i'r dyfodol.

**8.0.2** Y pedwar maes sy'n cael eu cynnig fel meysydd fydd yn cael effaith gadarnhaol ar y gofyn am wasanaethau, ond sydd yn anodd i'w meintioli ar hyn o bryd ydi :

- (8.1)Gwaith cymunedol
- (8.2)Gweithio ar sail cryfder
- (8.3)Technoleg a Deallusrwydd Artiffisial ('*AI*')
- (8.4)Tai Gofal Ychwanegol / Modelau llety addas

## 8.1 Gwaith cymunedol yng Ngwynedd

**8.1.1** Y weledigaeth yng Ngwynedd yw adeiladu cymunedau gwydn lle nad yw oedran yn rhwystr, trwy weithio mewn partneriaeth gyda mudiadau trydydd sector i gyfarch anghenion cymunedol. Mae gwaith cymunedol wedi bod yn rhan bwysig o ofal cymdeithasol i bobol hŷn ers blynyddoedd ac yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'w ddatblygu. Mae cadw mewn cysylltiad yn hanfodol i unigolion yn ein cymunedau.

**8.1.2** Ceir sawl budd mewn cefnogaeth gymunedol o leihau unigrwydd a theimladau ynysig, i gadw pobl yn eu cartrefi yn hirach. Awgryma tystiolaeth bod gwaith cymunedol yn galluogi pobl hŷn ag anghenion cymhleth a fyddai fel arall wedi bod angen gofal preswyl neu nyrsio i aros yn eu cartrefi eu hunain am hirach (Ryan, McCann & McKenna, 2009). Gall unigrwydd effeithio unrhyw un ar unrhyw bryd a chaiff unigrwydd ei gydnabod fel rhywbeth sydd yn deillio o broblemau cymdeithasol, iechyd a lles (Beneito-Montagut, Cassián & Begueria, 2018). Yn ôl adroddiad Age UK (2018) 'All the Lonely People: Loneliness in Later Life' gall cymunedau sy'n oed-gyfeillgar gynorthwyo i leihau unigrwydd i nifer o bobl. Gall gweithio mewn modd sy'n adeiladu ar gryfderau cymunedol fynd i'r afael â heriau sy'n amharu ar safonau bywyd unigolion, ac yn bwysicach na dim, rhoi'r seilwaith y maent ei angen i aros yn eu cartrefi ei hunain yn hirach.

**8.1.3** Ar draws Gwynedd ceir sawl prosiect cymunedol ar gael a chyfleoedd sydd yn rhoi'r cynnig i unigolion fod yn aelod o'u cymunedau. Mae enghreifftiau o'r hyn sydd ar gael yn amrywio o glybiau garddio, i ddosbarthiadau Actif am Oes, i gyfleoedd sy'n pontio'r cenedlaethau, i hybiau cymunedol. Ar draws y Sir mae deg hwb cymunedol wedi'i sefydlu a phob un yn teilwra yn ôl gofynion yr ardal y maent yn gwasanaethu. Un enghraifft o glwb o fewn hwb cymunedol yw Clwb Seiont sydd yn yr astudiaeth achos 3 isod. Cynigia'r hybiau fannau i gymdeithasu, prydau cynnes a llu o wybodaeth am yr hyn sydd ar gael i gefnogi pobl.

**8.1.4** Ni allwn anwybyddu'r ffaith fod Gwynedd yn ardal wledig ac er yn gyfoethog yn yr hyn sydd ganddi i gynnig i'w thrigolion, gall hynny olygu heriau i unigolion gyrraedd y cyfleoedd hyn. Mae datblygiadau trafnidiaeth cymunedol sy'n cyfarch y gofynion cymdeithasol hyn yn holl bwysig er mwyn galluogi unigolion i gael mynediad sydd yn rhoi cyfle i unigolion gymryd rhan yn gymdeithasol. Mae cyfleoedd cymunedol yn

edrych yn wahanol ym mhob ardal leol a hefyd i bob unigolyn a gall amrywio o fod yn gyfle i gymryd rhan mewn fforymau a gweithdai i fynychu dosbarth crefft, i sgwrs dros baned (Cyngor Gwynedd, 2024). Mae astudiaethau achos 3 a 4 yn dangos rhai o'r pethau sydd yn digwydd yn y sir ac yn amlygu y pwysigrwydd gwaith cymunedol.

**8.1.5** Mae darn o waith diweddar gan y Cyngor wedi datblygu Gwynedd i ddod yn oed-gyfeillgar sydd yn dathlu Gwynedd fel cymuned sy'n cyd-weithio i ddarparu ar sail beth mae pobl hŷn o fewn cymdeithas ei angen. Gellir dysgu mwy am rai o gryfderau ar draws cymunedau Gwynedd yn yr Asesiad Sylfaenol a'r Cynllun Gweithredu sydd hefyd yn trafod yr hyn sydd ar waith ar draws ein cymunedau: Gwynedd - Age-Friendly World (who.int)

**8.1.6** Er mwyn sicrhau bod unigolion yn cael mynediad fel yr angen i'r hyn sydd ar gael yn eu hardaloedd lleol, mae angen sicrhau bod y mudiadau a'r gwasanaethau sy'n gweithio mewn ardaloedd yn ymwybodol o beth sydd ar gael ac yn cyfeirio unigolion tuag at yr hyn a all fod yn fuddiol iddynt. Golyga hyn ddatblygu dealltwriaeth o beth sy'n cael ei gynnig gan bwy a sut y gall unigolion gael mynediad i'r wybodaeth a'r gefnogaeth.

**8.1.7** Dros y blynyddoedd nesaf gobeithir barhau i adeiladu ar yr hyn sydd ar gael ar draws cymunedau a gwneud hynny ar sail beth a glywir gan bobl hŷn y Sir a'r hyn sydd ei angen. Gwneir hyn drwy weithio mewn partneriaeth gyda sawl mudiad, grŵp cymunedol a phobl hŷn Gwynedd gan barhau i weithio ar sail cryfderau – yr unigolion a'r cymunedau – i gyfarch a diwallu anghenion lleol.

**8.1.8** Gwneir gwaith hefyd i hyrwyddo ag ehangu'r defnydd o'r gwefan 'Dewis Cymru' sydd yn gyfeirlyfr cenedlaethol ar gyfer gwybodaeth a chyngor am lesiant. Mae'r wefan yn hysbysebu nifer o grwpiau ag adnoddau cymunedol ac mae'r grwpiau a gwasanaethau yn berchen eu gwybodaeth ac yn gallu diweddaru unrhyw adeg. Bydd datblygu'r adnodd hwn, ynghyd ag edrych ar ddulliau o rannu gwybodaeth gyda phobl hŷn yn sicrhau y gellir rhannu yr hyn sydd ar gael i bobl yn eu hardaloedd lleol hwy.

**Astudiaeth Achos 2 – Gwaith cymunedol yn Ngwynedd.**

Cynhelir clwb Seiont yn Hwb Porthi Dre Caernarfon, ar y cyd â hwb Yr Orsaf Penygroes. Mae yna drefniant cludiant i helpu pobl i gyrraedd y clwb ac i fynd adref. Ceir trefn i ofalwyr cartref yr ardal i ddanfon unigolion i'r grŵp a'u gadael yno. Trefn clwb Seiont yw gweithgaredd ysgafn yn y bore, cinio dau-bryd maethlon, a gweithgaredd arall yn y prynhawn.

Mae Mrs Thomos yn unigolyn sydd wedi cael budd o'r grŵp.

Yn dilyn Covid roedd merch Mrs Thomos yn poeni bod ei mam wedi colli hyder i fynd allan, ar ôl colli ei gŵr tua'r un amser. Gyda threigl amser, roedd ei chlyw a'i golwg yn dirywio, ac roedd hynny'n cael effaith sylweddol ar ei hiechyd meddwl wrth i unigrwydd ddechrau ei llethu.

Daeth merch Mrs Thomos efo'i mam i'r sesiwn gyntaf. Penodwyd un gwirfoddolwr penodol i fod yn gwmni i Mrs Thomos ar y dechrau, i sicrhau ei bod yn setlo, ac i fagu ei hyder.

Erbyn heddiw mae Mrs Thomos yn mynd i glwb Seiont yn wythnosol ac wedi creu nifer o ffrindiau newydd ac ailgysylltu ag eraill. Mae Mrs Thomas yn sôn am drefnu trip i Wetherspoons efo'i ffrindiau newydd pam mae'r tywydd yn gwella.

Gyda help gwaith cymunedol mae Mrs Thomos yn gallu parhau i fyw gartref yn iach ag yn hapus. Heb help y clwb yma mae yna bosibilrwydd y byddai Mrs Thomos wedi cael ei chyfeirio at wasanaethau cymdeithasol ar gyfer gofal cartref a gwasanaethau iechyd meddwl.

***"Mae cymdeithasu wedi bod yn help mawr i mam, i roi pwrpas i'w bywyd" – Merch Mrs Thomos.***

** Newidiwyd yr enwau i ddiogelu preifatrwydd*

**Astudiaeth Achos 3 – Gwaith cymunedol yn Ngwynedd.**



Cafodd aelodau Clwb Seiont fodd i fyw pan ddaeth Sarah Bee (Profiad Anifeiliaid Dyffryn) draw i Porthi Pawb yng nghwmni pob math o greaduriaid ac roedd cyfle i bawb eu dal a'u cyffwrdd.

Roedd Rosie, y chihuaua bach yn dipyn o ffefryn gan bawb. Roedd hi'n barod iawn i gael ei chofleidio a'i mwytho ac yn dipyn llai o faint na'r gwningen fawr wen!



Uchafbwynt y diwrnod oedd gweld Raisin y ferlen fach yn cael ei thywys i mewn i'r cyntedd – roedd hi'n dawel ac yn gyfforddus ynghanol pawb ac yn hapus i gael ei mwytho.

Roedd o'n bnawn arbennig – digon o gyfle i sgwrsio am bob math o bethau, i hel atgofion ac i ddysgu mwy am yr anifeiliaid ac roedd hi'n hyfryd gweld un o'r dynion yn ei elfen yng nghanol yr anifeiliaid ac yn eu mwytho a'u hanwesu bob un yn eu tro.

### 8.2 Gwaith ar sail cryfder

**8.2.1** Pwysleisia gwaith ar sail cryfder fod gan bawb sgiliau a/neu asedau gwerthfawr i'w cynnig, ac y dylid canolbwyntio ar gryfderau unigolion pan yn cynnig cymorth a/neu gofal iddyn nhw. Yn hanesyddol, bu gormod o bwyslais ar wendidau unigolion, a sut y gallai Gwasanaethau Cymdeithasol ymyrryd i oresgyn y gwendidau yma. Mae angen i'r ymarfer yma newid. Mae rhoi'r unigolyn a'u anghenion wrth wraidd eu gofal, a sicrhau fod ganddyn nhw lais a rheolaeth dros gyrraedd eu nodau llesiant yn ran greiddiol o'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

**8.2.2** *"Mae [gwaith ar sail cryfder] yn ymateb i angen ond mae'n canolbwyntio ar briodoleddau cadarnhaol bywydau unigol a chymdogaethau, gan gydnabod gallu, sgiliau, gwybodaeth a photensial unigolion a chymunedau. Mae'n seiliedig ar y sail sylfaenol bod y berthynas gwaith cymdeithasol yn un o gydweithio, a bod pobl yn ddyfeisgar ac yn abl i ddatrys eu problemau eu hunain os cânt eu galluogi a'u cefnogi i wneud hynny"* (Department of Health, 2017).

**8.2.3** Mae dulliau seiliedig ar gryfderau nid yn unig yn cefnogi'r unigolyn i fod yn gyfrifol am ei benderfyniadau gofal ei hun, ond hefyd yn harneisio adnoddau cymunedol (Nelson-Becker, Milne, Perry, et al. 2020). Mae hyn yn gysylltiedig gyda'r syniad o ehangu gwaith cymunedol.

**8.2.4** Mewn astudiaeth a gynhaliwyd mewn pum awdurdod lleol yn Lloegr lle defnyddiwyd dull seiliedig ar gryfderau, daethpwyd o hyd i'r canlynol. Arweinia ymarfer sy'n seiliedig ar gryfder at: well sylw at hawliau dynol; mwy o ganolbwyntio ar safbwynt a dymuniadau unigolion; gwell cyd-weithio amlddisgyblaethol; mwy o rymuso a safbwyntiau cadarnhaol i'r dyfodol (Nelson-Becker, et al. 2020). Gellir gweld y casgliadau yma yn yr astudiaeth achos isod sydd yn enghraifft o le mae gwaith ar sail cryfder wedi gweithio'n dda yng Ngwynedd.

**8.2.5** Mae'r shifft at weithio ar sail cryfder yn mynd ymlaen yng Ngwynedd fel yn holl siroedd eraill Cymru. Er hynny, mae mwy i'w wneud, a'r gobaith ydi gall Gwynedd fod yn arloesol yn y modd y byddwn yn gweithio ar sail cryfderau.

**8.2.6** Er mwyn adeiladu ar y gwaith sydd wedi ei wneud hyd yma, bydd angen cario ymlaen i hyfforddi'r gweithlu a hyrwyddo'r diwylliant o weithio ar sail cryfderau drwy arweinwyr yr Adran. Eisoes bu hyrwyddo eang ar hyfforddiant "Collaborative Communication" yng Ngwynedd.

**Astudiaeth Achos 4 – Gwaith ar sail cryfder yn Ngwynedd.**

Yr hyn oedd yn bwysig i Mr Williams oedd ei gi. Roedd gan Mr Williams hanes o wrthod cefnogaeth ond roedd ei iechyd yn dirywio a pryder am gelcio ('*hoarding*') yn y tŷ. Cydweithiodd y gweithiwr cymdeithasol efo Mr Williams i ganolbwyntio ar be oedd yn bwysig iddo, a chryfderau Mr Williams, yn lle canolbwyntio ar be oedd Mr Williams yn methu ei wneud oherwydd ei iechyd. Drwy'r cydweithio, trefnodd y gweithiwr cymdeithasol i berson fynd a'r ci am dro iddo gan nad oedd yn gallu parhau i wneud hyn ei hun. Trwy hyn, adeiladwyd perthynas rhyngddynt a daeth Mr Williams i ymddiried yn y person oedd yn mynd a'r ci am dro i'w helpu i gael trefn ar y tŷ a rhoi cefnogaeth efo gofal personol. Y canlyniad oedd nad oedd angen i Mr Williams gael gofal cartref statudol na help ffurfiol i glirio'r tŷ. Yn ogystal a'r effaith gadarnhaol ar Mr Williams, llwyddwyd i osgoi yr angen am adnodd gofal cartref ffurfiol, a'r gost cysylltiedig.

** Newidiwyd yr enwau i ddiogelu preifatrwydd*

## 8.3 Technoleg a Deallusrwydd Artiffisial

**8.3.1** Er fod teleofal a thechnoleg yn faes sydd yn cael ei ddefnyddio yng Ngwynedd eisoes, mae’n faes sydd yn newid ar gyflymder. Mae dyfodiad deallusrwydd artiffisial wedi agor y drysau i bosibiliadau diddiwedd yn y maes gofal fel mewn llawer maes arall, ac mae’n fater o amser nes bod technoleg a deallusrwydd artiffisial yn trawsnewid y ffordd mae gwasanaethau gofal a chymorth yn cael eu darparu.

**8.3.2** Cred llawer o arbenigwyr y gallai'r technolegau hyn helpu i ddatrys problemau brys sy'n wynebu'r sector gofal cymdeithasol; galluogi unigolion i fyw gartref yn hirach, gan ddarparu gwasanaethau ac offer o bell ar gyfer hunanofal a rheoli cyflyrau iechyd cronig; lleihau'r angen am ymweliadau gofal cartref; a darparu gwasanaethau gofal mwy personol ac ataliol trwy ddefnyddio dyddiad ac algorithmau i'n helpu i fyw yn iachach am fwy o amser (Wright, 2020).

**8.3.3** Defnyddir technoleg a deallusrwydd artiffisial yng Ngwynedd yn barod ac mae nifer o gydgyfeiriannau wedi digwydd gyda nifer o gwmnïau sydd wedi creu technolegau newydd yn y sector gofal. Mae'r rhain yn amrywio o lampau 'clyfar’ sy'n defnyddio deallusrwydd artiffisial i helpu i ganfod ac adnabod cwympiadau yn y cartref a galw am help, i welyau 'clyfar’ a all droi unigolyn o gwmpas i atal briwiau gwelyau a salwch ac anaf arall oherwydd symudedd. Mae astudiaeth achos 6 isod yn disgrifio sut mae un o'r gwelyau 'clyfar’ hyn eisoes yn cael ei ddefnyddio yng Ngwynedd.

**Astudiaeth Achos 5 – Technoleg a Deallusrwydd Artiffisial**

Mae Ms Pritchard yn wraig 65 mlwydd oed sydd yn dioddef o “Multiple Sclerosis - Primary Progressive”. Mae Ms Pritchard yn byw ei hun ac mae’n derbyn 4 galwad y dydd wedi dyblu fyny, gan ofalwyr. O ganlyniad i’r “MS” nid yw Ms Pritchard yn gallu cerdded ac mae defnydd o’i dwylo hefyd wedi ei effeithio. Yn sgil hyn mae Ms Pritchard yn cael ei hoistio yn llawn ac yn defnyddio cadair olwyn i fynd o amgylch yr eiddo.

Wrth i gyflwr meddygol a gallu Ms Pritchard i gymryd rhan yn y dasg ddirywio, roedd gofalwyr yn ei chanfod yn anodd i droi Ms Pritchard yn y gwely, er mwyn gosod y sling yn ddiogel ymlaen. Roedd Ms Pritchard hefyd wedi mynd yn bryderus iawn am gael ei throi gan nad oedd yn hoffi gofalwyr yn ei chyffwrdd. Ymchwiliodd y Therapydd Galwedigaethol nifer o wahanol ddulliau ac offer er mwyn cefnogi Ms Pritchard a’r gofalwyr gyda’r dasg yma. Penderfynodd mai’r offer “Vendlett” fyddai’r opsiwn mwyaf addas a diogel ar gyfer pawb. Offer yw’r “Vendlett” sydd yn cael ei osod ar wely proffil er mwyn galluogi i’r unigolyn gael ei symud o un ochr i’r llall o fewn y gwely ac ei throi, heb i’r gofalwyr fod angen ei chyffwrdd.

Mae defnydd o’r “vendlett” wedi galluogi Ms Pritchard gael ei throi mewn modd diogel ac urddasol, er mwyn gosod y sling ymlaen a gallu trosglwyddo i’r gadair olwyn. Mae hyn wedyn wedi caniatáu Ms Pritchard i allu cymryd rhan mewn tasgau pob dydd gwerthfawr iddi, megis gwylio’r teledu, mynd i siopa a gweld ei theulu. Mae’r offer hefyd wedi lleihau y risg o anaf i’r gofalwyr, yn ogystal a wedi lleihau yr angen am drydydd gofalydd, sydd yn fantais ariannol mawr.

**8.3.4** Yng Ngwynedd cymerwyd camau cyntaf y daith gyda thechnoleg a deallusrwydd artiffisial ac mae ffordd bell i fynd o hyd. Mae technolegau'n ddrud a cheir llawer o wahanol opsiynau ar y farchnad, felly'r cam cyntaf yw nodi pa dechnoleg fydd fwyaf buddiol i bobl Gwynedd o fewn cyllideb sy'n fforddiadwy i’r adran.

**8.3.5** Nid wyddys beth sydd ar y gweill yn genedlaethol ac yn fyd-eang ar gyfer deallusrwydd artiffisial a thechnoleg. Bum mlynedd yn ôl, nid oedd y technolegau sydd ar gael heddiw yn bodoli. Felly mae'n bwysig cadw meddwl agored am unrhyw beth sy'n cael ei ddatblygu a chadw’n effro i wybod pa ddatblygiadau sydd ar ddod.

**8.3.6** Gallai buddsoddi mewn technolegau fod â chost sylweddol ar y dechrau, ond gallai dalu ar ei ganfed yn y dyfodol lle rhagwelir y bydd yr heriau staffio yn cynyddu, ochr yn ochr â'r cynnydd yn y galw. Bydd yn hanfodol buddsoddi yn y technolegau hyn cyn i'r argyfwng hwn ddigwydd.

**8.3.7** Y dasg nesaf ar ôl cyflwyno'r adroddiad hwn fydd creu cynllun manwl ar gyfer sut y gall Gwynedd wneud y gorau o dechnolegau sydd ar gael a thechnolegau'r dyfodol, er mwyn cael y defnydd gorau o dechnoleg a deallusrwydd artifisial dros yr ugain mlynedd nesaf.

## 8.4 Tai Gofal Ychwanegol / Modelau llety addas

> ***"Mae tai da yn chwarae rhan hanfodol mewn heneiddio'n iach ac annibynnol. Mae galluogi pobl i aros yn eu cartrefi am gyfnod hirach yn dod â manteision iechyd, cymdeithasol ac economaidd sylweddol.***
>
> ***Mae angen y math cywir o dai arnom yn y lle iawn sy'n cyd-fynd ag anghenion pobl.***
>
> ***Bydd yna rhai achosion lle bydd tai yn cael eu hadeiladu'n bwrpasol, mewn eraill, trwy drefnu addasiadau i'r cartref presennol"***.
>
> *(Ffyniant i Bawb, Llywodraeth Cymru, 2017)*

**8.4.1** Cynhwyswyd mwy o wybodaeth am ddarpariaeth presennol Tai Gofal Ychwanegol yn rhan 3.6. Mae ein darpariaeth tai gofal ychwanegol yn uwch na'r cymedr gwledig ar hyn o bryd; fodd bynnag mae llawer o'r siroedd gwledig yn y broses o gynyddu eu darpariaeth tai gofal ychwanegol. Felly mae'n debygol y byddwn ar ei hôl hi o fewn y blynyddoedd nesaf os na fyddwn yn cadw i fyny â datblygiadau.

**8.4.2** Yn 2017, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i adeiladu datblygiadau tai pwrpasol a fyddai'n caniatáu i bobl fyw'n annibynnol o fewn amgylchedd gwarchodedig, sydd wedi'i leoli'n agos at drafnidiaeth gyhoeddus (Housing LIN, 2020). Ers yr ymrwymiad yma, a'r arian a ddarparwyd i'w gefnogi, buddsoddodd mwy o gynghorau mewn datblygiadau tai gofal ychwanegol.

**8.4.3** Yng Ngwynedd mae yna gynlluniau ar y gweill yn ardaloedd Pwllheli (Penyberth), Penygroes, Caernarfon a Dolgellau. Mae safle wedi cael ei adnabod yng Nghaernarfon a Phenygroes, ond parheir i chwilio am safle addas yn Nolgellau.


**8.4.4** Yn ychwanegol i'r gwaith uchod mae gwaith ar fin cychwyn ar y cyd gyda'r adran Dai i greu cynllun deng mlynedd ar hugain ar gyfer anghenion tai pobl hŷn Gwynedd. Bydd y gwaith yma yn darparu mwy o fanylder ar fapio Gwynedd yn ôl anghenion demograffeg, gwasanaethau presennol, ac opsiynau darpariaeth llety presennol.

## 8.5 Crynodeb Gweithio'n arloesol

**8.5.1** Amlygodd Adran 8 bwysigrwydd gweithio'n arloesol gyda phwyslais ar: Weithio ar sail cryfder; Gwaith cymunedol; Tai Gofal Ychwanegol / Modelau llety addas; Technoleg a Deallusrwydd Artiffisial ('*AI*').

**8.5.2** Mae'n amlwg o'r astudiaethau achos fod y meysydd yma yn fuddiol i fywydau unigolion ac yn gallu cyfrannu at ddatblygiad gofal cymdeithasol yn y dyfodol. Mae'n anodd mesur gwaith yn y meysydd yma ac felly anodd tracio pa effaith mae'r gwaith yn ei gael. Os y rhoddir mwy o bwyslais ar y meysydd yma byddai'n dda cael targed at y gwaith. Felly darperir y siart isod.

**8.5.3** Pwrpas y siart isod yw dangos y math o sefyllfa allai ddigwydd pe bai'r meysydd a amlinellir uchod, sef trawsnewid gwasanaethau gofal fel eu bod yn cyrraedd cymedr yr awdurdodau gwledig, a gweithio'n arloesol i drawsnewid gwasanaethau, yn cael eu gweithredu. Oherwydd natur arloesol y meysydd yma nid oes tystiolaeth bendant ar gael i feintioli eu heffaith tebygol, a bydd angen gwaith ymchwil a gwerthuso pellach i fesur effaith eu darparu yn y gymuned ac yn y maes gofal.




Siart 20: Effaith posib gweithio yn unol ag arfer gorau neu arloesol ar angen gofal cartref, preswyl a nyrsio yng Ngwynedd erbyn 2043

**8.5.4** Dangosa'r siart uchod effaith posibl gweithio'n arloesol ar yr angen am ofal cartref, preswyl a nyrsio (heb dementia), a phreswyl a nyrsio (gyda dementia), o'i gymharu â'r rhagamcanion am ofal nodwyd yn Rhan 1. Mae'r siart yn dangos yr angen am ofal fel canran uwch na'r capasiti presennol, a gwelwn yr effaith posib y gallai gweithio yn unol ag ymarfer arferol siroedd cymharol (y senario glas) neu arloesol (y senario melyn) gael ar y rhagamcanion angen gofal presennol (oren). Mae hi'n bwysig nodi nad yw darparu yr un faint o ofal â'r sir sydd yn darparu'r lleiaf, o anghenraid, yn 'dda'.

**8.5.5** Seilir hyn ar y fethodoleg a amlinellwyd yn 6.4 uchod, a chan ragdybio y byddai gweithio'n arloesol yn galluogi cyrraedd y cymedr gwledig presennol erbyn 2033, a chyflawni lleihad pellach erbyn 2043 gyda'r lefelau darpariaeth erbyn hynny yn cyrraedd lefel debyg i'r awdurdod sydd â'r lefel darpariaeth isaf (o ran y mathau traddodiadol o ofal) ymysg y cynghorau gwledig ar hyn o bryd.

**8.5.6** Awgryma'r siart y gallai'r angen am ofal, ar y sail yma, fod tua 18% yn uwch na'r capasiti presennol erbyn 2043 (o'i gymharu â thua 33% yn uwch na'r capasiti presennol pe byddem yn gweithio tuag at y cymedr gwledig yn unig, a thua 56% yn uwch na'r capasiti presennol pe na bai unrhyw newid tuag at weithio ar sail arfer gorau / arloesol).

**8.5.7** Gan ddefnyddio'r fethodoleg a rhagdybiaethau a amlinellir yn 6.4 uchod, byddai'r effaith ar y cyllid a'r gweithlu ychwanegol angenrheidiol yn dilyn yr un math o batrwm, h.y.:

- Modelir y byddai'r angen cyllidol ar gyfer y ffrydiau gofal yma yn cynyddu o tua £46m yn bresennol i tua £53m erbyn 2043 (yn hytrach na chynyddu i tua £60m pe byddem yn gweithio tuag at y cymedr gwledig yn unig, neu gynyddu i tua £70m pe na bai unrhyw newid i'n ffyrdd o weithio);
- Modelir y byddai angen am weithlu gofal yn cynyddu o 1,808 yn bresennol i 2,119 erbyn 2043 (yn hytrach na chynyddu i 2,401, pe byddem yn gweithio tuag at y cymedr gwledig yn unig, neu gynyddu i 2,809 pe na bai unrhyw newid i'n ffyrdd o weithio).

**8.5.8** Rhaid cymryd gofal wrth ddefnyddio'r amcangyfrifon uchod gan nad oes llawer o dystiolaeth am effaith meintiol gweithio mewn ffordd arloesol ar ddarpariaeth gofal, a felly mae'n dangos yr hyn all ddigwydd pe bai lleihad mewn angen gofal traddodiadol yn sgil y newidiadau uchod. Yn ogystal, maent yn seiliedig ar ganrannau eithaf 'lefel uchel' a nid oes sicrwydd mai dyma fyddai union effaith newid ein ffordd o weithio.

**8.5.9** Er hyn, amlyga'r siart pe byddai'r senarios uchod yn digwydd yna fe fyddai'r twf yn yr angen am ofal, a felly yr angen am staffio a chyllid ychwanegol yn gysylltiedig â gofal cartref, preswyl a nyrsio, yn lleihau.

**8.5.10** Er fod pob senario yn parhau i ddangos twf mewn angen uwchlaw'r capasiti presennol, mae'n dangos hefyd yr effaith fyddai newid mewn darpariaeth yn ei gael ar y cynnydd mewn gofal gan fynd rhywfaint o'r ffordd i leddfu effaith y twf ragwelir yn y boblogaeth hŷn. Gan fod y maes yma yn arloesol dylid gwneud ymchwil pellach i gasglu tystiolaeth am effaith meintiol y dulliau arloesol ac arfer gorau sydd yn cael eu trafod uchod ac addasu'r senarios uchod yn dilyn hynny.

# 9. Casgliadau ac Argymhellion

## Casgliadau

**9.1** Nid oes adnoddau dynol nac adnoddau ariannol digonol i ddarparu gwasanaethau gofal cymdeithasol i bobl hŷn yn Ngwynedd ar hyn o bryd. Llurgunir yr olygfa gyllid ac argaeledd gofalwyr gan y rhestrau aros am wasanaethau olyga nad yw'r 'gorwariant' i'w weld yn glir bob amser. Drwy gynnal rhestrau aros am wasanaethau statudol ac angenrheidiol galluogir darpariaeth effeithiol i'r rhai a dderbyn gwasanaethau, ond pery dioddef gan yr unigolion sydd angen cymorth a gofal nad yw ar gael.

**9.2** Tystiolaetha'r ystadegau poblogaeth bod cynnydd sylweddol yn niferoedd y bobl hŷn mewn cymdeithas yn mynd rhagddo ers dau ddegawd ac fe ragwelir y bydd y twf hwn yn parhau dros y ddau ddegawd nesaf. Gyda chynnydd yn y boblogaeth hŷn, a'r dystiolaeth yn dangos nad oes cynnydd oedran cyfartalog y mae afiechyd yn taro, ceir rhagamcanion dramatig a realistig am dwf y galw am ofal dros y degawdau nesaf.

**9.3** Ar yr un pryd gwelwyd lleihad yn y boblogaeth oedran gwaith yng Ngwynedd rhwng 2011 a 2021 o 5,000 unigolyn (lleihad o 42 unigolyn oedran gwaith y mis am ddegawd), gan greu heriau o ran gweithlu a recriwtio i allu darparu'r gofal angenrheidiol, ac o ran incwm trethi lleol a chenedlaethol i'r Cyngor.

**9.4** O'r herwydd, **nid yw'r sefyllfa darparu gofal cymdeithasol i bobl hŷn yng Ngwynedd yn hyfyw nac yn gynaliadwy**. Gallai'r twf mewn galw arwain at ddiffyg ariannol ac o ran adnoddau dynol fyddai'n ddigonol i roi y Cyngor dan bwysau ariannol eithriadol.

**9.5** O ystyried gallu siroedd gwledig cyffelyb yng Nghymru, gwelir bod amrywiaethau mawr yn y ddarpariaeth ac o gymharu gellir rhagweld effaith newid dulliau darparu Cyngor Gwynedd. Gellid darparu llai o ofal cartref drwy ddarparu mwy o daliadau uniongyrchol a defnyddio mwy ar dechnoleg a datblygiadau roboteg, er enghraifft. Gellid hefyd gynnig dewisiadau llety mwy addas ar gyfer unigolion, a hynny gyda gofal ynghlwm ag ef, a thrwy hynny leihau'r galw am ofal preswyl.

**9.6** Ysywaeth, erys yr her, serch hynny. Hyd yn oed pe byddai Gwynedd yn efelychu'r ddarpariaeth leiaf yn y siroedd gwledig cymharol, byddai bwlch yn parhau ac yn tyfu yn y ddarpariaeth o ran adnoddau dynol ac adnoddau cyllidol.

**9.7** Cyfyd cwestiwn felly ar gynaliadwyedd y gwasanaeth a gynigir ar hyn o bryd i'r dyfodol, hyd yn oed gyda'i restrau aros, ac hefyd ar yr angen i dargedu gwasanaethau ymhellach ac i flaenoriaethu ymyrraeth gynnar i atal yr angen yn y lle cyntaf.

**9.8 Argymhellion**

1. Tymor Byr:
    a. Dylai'r gwasanaethau cymdeithasol ar gyfer pobl hŷn baratoi cynlluniau i weithredu'n arloesol ac i efelychu llwyddiannau siroedd gwledig cymharol, a'u gweithredu ar fyrder, gan ddilyn cynllun prosiect pendant gyda cherrig milltir cadarn, gan gynnwys:
        i. Llety:
            1. Cwblhau asesiad anghenion ar y cyd gyda'r Adran Tai ac Eiddo i'w gyhoeddi a'i weithredu er mwyn:
                a. Datblygu llety gofal ychwanegol ar draws y sir i alluogi unigolion hŷn i fyw eu bywyd gorau;
                b. Datblygu cartrefi gofal nyrsio a dementia ar draws y sir i alluogi unigolion i gael gofal priodol pan fo'n angenrheidiol;
                c. Sicrhau cynlluniau a chyllid cyfalaf tymor canolig/hir i ddatblygu y cartrefi preswyl mewnol i ddarparu gofal dementia arbenigol a nyrsio o'r safon uchaf ar draws y sir;
        ii. Mabwysiadu ac hyrwyddo gwaith ar sail cryfder a gwaith cymunedol i gynorthwyo unigolion hŷn i fyw eu bywyd gorau;
        iii. Sicrhau fod rheolaeth a chomisiynu effeithiol ac effeithlon o'r gwasanaethau darparu gofal er mwyn gwneud y mwyaf o'r oriau gofal sydd ar gael ac i sicrhau rheolaeth ariannol effeithiol;
        iv. Symleiddio'r systemau a chynyddu'r defnydd o daliadau uniongyrchol i ddarparu gofal ac o ddulliau arloesol o gefnogi unigolion hŷn i fyw eu bywyd gorau;

v. Datblygu a hyrwyddo’r gwasanaeth TAG (Technoleg Alluoga Gofal) ymhellach; i alluogi unigolion i fyw eu bywyd gorau;
vi. Datblygu a hyrwyddo gwasanaethau gwybodaeth ar y cyd gydag adrannau eraill o’r Cyngor i gynorthwyo unigolion hŷn i wneud penderfyniadau gwybodus ar ddulliau byw eu bywyd gorau;
vii. Datblygu academi gofal i hyrwyddo gyrfaoedd yn y gwasanaethau cymdeithasol, o ran darparu gofal ac o ran cefnogaeth broffesiynol, ac i ddenu gweithlu hyfyw;
viii. Cydweithio gyda gwasanaethau cyhoeddus eraill i hyrwyddo cyd-berchnogaeth ac i ganfod datrysiadau ar y cyd i leihau’r galw am wasanaethau gofal ac i alluogi unigolion i fyw eu bywyd gorau.

b. Sicrhau trosolwg rheolaidd a gofalus gan Gynghorwyr ac uwch swyddogion ar y gwaith hwn dros y blynyddoedd nesaf er mwyn cadw golwg ar gynnydd.
c. Datblygu ac ehangu cefnogaeth sydd ar gael i ofalwyr di-dâl.
d. Datblygu cynlluniau cyllidebu wedi eu seilio ar dystiolaeth yn ôl yr adroddiad hwn.

2. Tymor Hir:
    a. Cydweithio gyda Iechyd Cyhoeddus, gwasanaethau iechyd a gwasanaethau cyhoeddus yn gyffredinol i weithredu’n rhagweithiol ac ataliol ac i geisio lleihau’r galw am wasanaethau gofal;
    b. Cydweithio ar draws y Cyngor i ystyried dulliau amgen o alluogi’r boblogaeth i wneud penderfyniadau gwybodus am eu iechyd a’u lles er mwyn eu galluogi i gynllunio ar gyfer eu heneiddio’n gadarnhaol;
    c. Datblygu cynlluniau cyllidol ar gyfer y degawdau nesaf ar sail y wybodaeth yn yr adroddiad hwn ac ar gyfer sicrwydd ariannol y dyfodol i'r Cyngor.
3. Cyffredinol:
    a. Cynyddu’r ymwybyddiaeth wleidyddol o’r heriau a’r angen am adnoddau ac am feddwl gwahanol, drwy wleidyddion lleol a chenedlaethol a thrwy cyhoeddi’n ffeithiol yn genedlaethol;
    b. Hyrwyddo a phwysleisio bod heriau'r dyfodol yn ehangach na'r adran Oedolion, a bod gan holl adrannau'r cyngor gyfraniadau i'w gwneud.

c. Dylai Cyngor Gwynedd weithredu ar fyrder i leihau'r gostyngiad parhaus ym mhoblogaeth oedran gwaith y sir, drwy hyrwyddo Gwynedd fel y man gorau yng Nghymru i fyw'n ifanc;
d. Dylid arddel dulliau cyllido hir-dymor a chynllunio ariannol ar sail cryfderau ac anghenion, a dylid rhoi pwysau ar Lywodraeth Cymru i ymatal rhag cyllido drwy nawdd tymor byr a grantiau.

**9.9** Yn olaf, dylid sicrhau fod Cabinet y Cyngor a Phwyllgor Craffu Gofal y Cyngor yn cadw llygad barcud ar y datblygiadau hyn dros y blynyddoedd sydd i ddod.

## 10. NODIADAU A LLYFRYDDIAETH:

Age UK (2018, Medi). All the Lonely People: Loneliness in Later Life. Adalwyd ar Ebrill y 24ain, 2024, adalwyd o All the Lonely People: Loneliness in Later Life (ageuk.org.uk)

Alzheimers Society (2022). *What is dementia?* [Ar lein] Ar gael yn: https://www.alzheimers.org.uk/about-dementia/types-dementia/what-is-dementia?gad_source=1&gclid=EAIaIQobChMI9ZrT1MeZhAMVKZhQBh0cUgd_EAAYASAAEgIZEPD_BwE&gclsrc=aw.ds#2

Alzheimer's Society (2021). Risk factors for dementia. [Ar lein] Alzheimer's Society. Ar gael yn: https://www.alzheimers.org.uk/sites/default/files/pdf/factsheet_risk_factors_for_dementia.pd

Archwilio Cymru. (2022). Direct Payments for Adult Social Care. *?* [Ar lein] Ar gael yn: https://www.audit.wales/sites/default/files/publications/Direct-payments-Eng-update-sept-2022.pdf

Baldock, J. (2002). Social Care in old Age: More Than a Funding Problem. *Social Policy Aministration*. 31(1). pp73-89. https://doi.org/10.1111/1467-9515.00039

Beneito-Montagut, R., Cassián-Yde, N., & Begueria, A. (2018). What do we know about the relationship between internet-mediated interaction and social isolation and loneliness in later life? Quality in Ageing and Older Adults, 19(1), 14-30 https://doi.org/10.1108/QAOA-03-2017-0008

Colton, M. and Roberts, S. (2007). Factors that contribute to high turnover among residential child care staff. *Child & Family Social Work*, 12(2), pp.133–142.

Comisiwn Bevan. (2024). The Foundations for the Future Model of Health and Care in Wales. Creating a sustainable National health and care Service for an equally well Wales.

Cyngor Gwynedd (2024). Gwynedd Oed Gyfeillgar: Cynllun Gweithredu. [Ar lein] Ar gael yn: https://extranet.who.int/agefriendlyworld/network/gwynedd/

Cyngor Gwynedd. *(n.d.). Teleofal.* [Ar lein] Ar gael yn: https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Iechyd-a-gofal-cymdeithasol/Oedolion/Help-i-fyw-yn-annibynnol/Teleofal.aspx

Department of Health. (2017). Strengths-based social work practice with adults. [Ar lein] Ar gael yn: https://new.basw.co.uk/sites/default/files/resources/basw_53146-2_0.pdf

Fox, N., Ratcliffe, S., Scotter, K. (2023) Care worker shortages: What is it like working in the industry? [Ar lein] Ar gael yn: Care worker shortages: What is it like working in the industry? - BBC News

Gofal Cymdeithasol Cymru. (2022). *Beth yw taliadau uniongyrchol?* [Ar lein] Ar gael yn: https://gofalcymdeithasol.cymru/adnoddau-canllawiau/gwella-gofal-a-chymorth/gofal-a-chymorth-yn-y-cartref/beth-yw-taliadau-uniongyrchol?_gl=1

GIG (2022). *Care homes: Social Care and Support Guide*. [Ar lein] Ar gael yn: https://www.nhs.uk/conditions/social-care-and-support-guide/care-services-equipment-and-care-homes/care-homes/#:~:text=Nursing%20homes.

Housing LIN. (2020). Assessment of the demand for specialist housing and accommodation for older people in Wales. [Ar lein] Ar gael yn: https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2020-01/independent-report-on-accommodation-for-older-people.pdf

Llywodraeth Cymru (2017). Ffyniant i Bawb: y cynllun gweithredu ar yr economi. [Ar lein] Ar gael yn: ffyniant-i-bawb-y-cynllun-gweithredu-ar-yr-economi-crynodeb-gweithredol.pdf (llyw.cymru)

Llywodraeth Cymru. (2006). Guidelines for Developing Extra Care Housing in Wales. [Ar lein] Ar gael yn: https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/extra-care-housing-guidance.pdf

Nelson-Becker, H., Lloyd, L., Milne, A., Perry, E., Ray, M., Richards, S., Sullivan, M.P., Tanner, D. and Willis, P., 2020. Strengths-based social work with

older people: A UK perspective. University of Kansas Libraries. [Ar lein] Ar gael yn: https://bura.brunel.ac.uk/bitstream/2438/25761/1/FullText.pdf

P. Flannigan. (2024). Stabilising the Health and Social Care Workforce in North Wales [cyflwyniad]. Grŵp Llandrillo Menai.

Ryan, A.A., McCann, S. and McKenna, H. (2009). Impact of community care in enabling older people with complex needs to remain at home. *International Journal of Older People Nursing*, *4*(1), pp.22-32.

TEC Cymru. (2021). DISCOVERY. Telecare Services in Wales. . [Ar lein] Ar gael yn: https://teccymru.wales/telecare

Ystadegau ar gyfer Cymru (2008). A Statistical Focus on Rural Wales. [Ar lein] Ar gael yn: https://www.gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2018-12/080515-statistical-focus-rural-wales-08-en.pdf

Whitfield, G. & Hamblin, K. (2023). Technology and social care: Key areas of policy focus in Scotland, Wales and Northern Ireland, 2019-2022. *Centre for Care*. [Ar lein] Ar gael yn: https://centreforcare.ac.uk/wp-content/uploads/2023/07/Technology-Wales-Scotland-and-Northern-Ireland_2023_FINAL-reduced-size.pdf

Wittenberg, R., Hu, B., Barraza-Araiza, L., & Rehill, A. (2019). Projections of older people with dementia and costs of dementia car ein the United Kingdom, 2019-2040. *Care Policy and Evaluation Centre* [Ar lein] Ar gael yn: https://www.yhscn.nhs.uk/media/PDFs/mhdn/Dementia/Bulletin/2019/December%202019/cpec_report_november_2019.pdf

Wright, J. (2020). Technology in social care: a review of the UK policy landscape. *Centre for International Research on Care, Labour and Equalities*. pp1-18 [Ar lein] Ar gael yn: Technology-in-social-care-a-review-of-the-UK-policy-landscape.pdf (researchgate.net)

# 11. ATODIADAU

**Atodiad 1...... Rhagdybiaethau a Methodoleg**

**Atodiad 2 ..... Data Cyllid cefndirol i rhan 4**

## 11.1 Atodiad 1 - Rhagdybiaethau a Methodoleg

***Model Anghenion Gofal y Boblogaeth 65 oed a Throsodd***

**Rhagdybiaethau**

- **11.1.1** I bwrpas y gwaith yma diffinnir ‘pobl hŷn’ fel y boblogaeth 65 oed a throsodd, er mwyn cysondeb â pholisïau a strategaethau megis ‘Cymru o Blaid Pobl Hŷn’ a’r modd y trefnir gwasanaethau, ynghyd â chysondeb gyda gwahanol ffynonellau data. Fodd bynnag fe wneir y modelu manwl ar sail bracedi oedran penodol o fewn hynny (oed 65-69, 70-74 ac ati) ac fe gyfeirir at y canlyniadau fesul grŵp oedran manwl lle’n briodol.

- **11.1.2** Cyfran o’r boblogaeth 65 oed a throsodd sy’n derbyn y gwahanol ffrydiau gofal yn aros yn gyson, nid yw'r model yn cynnwys unrhyw newidiadau mewn anghenion gofal ee pe bai iechyd y boblogaeth yn gwaethygu neu os oes cynnydd yn y gyfran o'r boblogaeth sydd gyda chyflwr neu afiechyd.

- **11.1.3** Defnyddir rhagamcanion poblogaeth diweddaraf Llywodraeth Cymru (seiliedig ar amcangyfrifon poblogaeth 2018) fel sail i’r model, ond gan ail-seilio’r llinell sylfaen i fod yn gyson â data poblogaeth Cyfrifiad 2021.

- **11.1.4** Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi set newydd o ragamcanion poblogaeth ar gyfer Gwynedd tua dechrau 2025, fydd yn adlewyrchu’n llawn y newidiadau demograffig diweddaraf, gan gynnwys y tueddiadau a welwyd yn y data Cyfrifiad. Mae’n bosibl y bydd hyn yn newid ychydig ar fanylder y ffigyrau (h.y. mae’n bosib y byddant yn dangos twf rywfaint llai, neu rywfaint mwy, yn y boblogaeth pobl hŷn na’r rhagamcanion presennol) ond ni ddisgwylir newid mawr i gyfeiriad cyffredinol y newidiadau demograffig a ragwelir.

- **11.1.5** Mae’r model anghenion gofal yn cynnwys oriau wythnosol anghenion gofal ar gyfer pob ffrwd gofal heblaw teleofal/technoleg lle mae nifer unigolion wythnosol yn cael eu cynnwys. Ar gyfer gofal preswyl / nyrsio gydag, a heb

ddementia nodwyd fod 22 (Preswyl), 24 (Preswyl Dementia), 26 (Nyrsio),30 (Nyrsio dementia) o oriau yn cael eu darparu ar gyfer pob unigolyn. Ar gyfer gweddill ffrydiau gofal defnyddiwyd yr oriau gofal a ddarparwyd fel nodwyd yn y system WCCIS.

- **11.1.6** Nid oedd data lleoliad ar gael ar gyfer rhai o'r oriau gofal, dangosai'r oriau yma fel 'N/A' yn y model. Gan nad oedd yn bosib cyfrifo cyfradd oriau i boblogaeth yn yr achos yma, nid yw'r nifer oriau yma yn newid wrth fodelu ymlaen i 2033 a 2043.

- **11.1.7** Nid yw'r model yn cynnwys gofal dydd fel ffrwd gofal oherwydd ei fod yn debygol o ddiflannu fel ffrwd arwyddocaol dros y cyfnod sydd yn cael ei fodelu.

- **11.1.8** Mae data rhestr aros gofal wedi cael ei gynnwys yn y model. Mae rhestr aros yn cyfeirio at oriau gofal na ellir eu darparu ar hyn o bryd oherwydd ddiffyg capasiti. Wrth symud i'r dyfodol, ni ddylid edrych ar y data yma fel rhestr aros yn tyfu ond anghenion gofal yn tyfu.

- **11.1.9** Ar gyfer y rhestr aros, defnyddiwyd cyfnod gwahanol i'r waelodlin, gan fod data oedd ar gael ar gyfer yr wythnos yma yn fwy cywir.

- **11.1.10** Ar gyfer y rhestr aros data, ar gyfer nifer achosion oedd ar gael nid oriau penodol, felly defnyddiwyd 10 awr fel oriau gofal cartref (chanolrif oriau gofal cartref darparwyd) ac chanolrif oriau dementia a ddim dementia sef 26 awr ar gyfer gofal preswyl a nyrsio.

<u>**Methodoleg**</u>

- **11.1.11**Canolbwyntia'r model anghenion gofal ar chwe ffrwd gofal, sef gofal cartref, gofal preswyl a nyrsio (heblaw dementia), gofal preswyl a nyrsio (dementia), taliadau uniongyrchol, teleofal/technoleg a thai gofal ychwanegol.

- **11.1.12** Ar gyfer pob ffrwd gofal cynhwyswyd data ar gyfer anghenion gofal y boblogaeth 65 oed a throsodd, ac mae'r data yma wedi cael ei rannu i fracedi oedran o 5 mlynedd (65-69, 70-74, 75-79, 80-84, 85-89 a 90+) gan fod anghenion gofal yn dueddol o gynyddu gydag oed.

- **11.1.13** Er mwyn edrych ar y data ar lefel daearyddol is, rhannwyd y data i bum ardal ddaearyddol sef Bangor, Caernarfon, Eifionydd, Llŷn a Meirionydd yn ogystal â Gwynedd gyfan.

- **11.1.14** Cyfanswm oriau gofal wythnosol sydd yn cael eu darparu yn bresennol yw sail y data ar gyfer pob ffrwd gofal heblaw teleofal/technoleg lle nad oedd hyn yn bosib ac mae nifer unigolion wedi cael eu defnyddio yn lle. Er mwyn hwylustod mae'r isod yn cyfeirio at oriau gofal yn unig, ond dylai hyn cael ei newid i nifer unigolion ar gyfer y ffrwd teleofal/technoleg drwyddi.

- **11.1.15** Sail y waelodlin a ddefnyddiwyd ar gyfer y model yw cyfanswm oriau gofal wythnosol ar gyfer yr wythnos o Fai 2023 (Wythnos yn cychwyn Sul 7/5/2023).

- **11.1.16** Cyfrifwyd oriau gofal fel cyfran o boblogaeth y grŵp oedran perthnasol gan ddefnyddio data poblogaeth y Cyfrifiad 2021.

- **11.1.17** Modelwyd anghenion gofal y dyfodol gan ddefnyddio rhagfynegai poblogaeth Llywodraeth Cymru o 2021 (sydd wedi eu seilio ar ddata poblogaeth o 2018), wedi eu haddasu rhywfaint i adlewyrchu'r lleihad ym mhoblogaeth Gwynedd yn y Cyfrifiad 2021. Gan fod y data yma wedi dyddio awgrymir dylai'r model yma cael ei ddiweddaru pan mae'r rhagfynegai poblogaeth nesaf yn cael eu rhyddhau yn 2025.

- **11.1.18** Cyfrifwyd faint o oriau gofal fyddai angen eu darparu yn 2033, ac yn 2043 gan ddefnyddio'r rhagfynegai poblogaeth (pwynt 7) a'r gyfran anghenion

gofal (pwynt 6). Yna cyfrifwyd cyfanswm cynnydd mewn oriau gofal i gymharu gyda 2023 fel nifer o oriau a chanran.

- **11.1.19** Er mwyn cael darlun llawnach o anghenion gofal y dyfodol, fe gasglwyd data ar gyfer y rhestr aros bresennol gan ddefnyddio data o'r 4ydd Rhagfyr 2023, ar gyfer gofal cartref, gofal preswyl a nyrsio (heblaw dementia), gofal preswyl a nyrsio (dementia). Cyfrifwyd y newid yn yr anghenion gofal yma gan ddilyn camau 6-8 uchod. Ni ddylid edrych ar y cynnydd yma fel cynnydd i'r rhestr aros yn y dyfodol, ond cynnydd yn anghenion gofal y dyfodol fel yr uchod.

- **11.1.20** Wedi dilyn y camau uchod, mae'r model yn cynnwys yr isod:
    - Anghenion gofal presennol (2023) sydd yn cael eu darparu yn wythnosol
    - Y rhestr aros bresennol (2023) ar gyfer gofal cartref, gofal preswyl a nyrsio (heblaw dementia), gofal preswyl a nyrsio (dementia)
    - Amcan o anghenion gofal wythnosol 2033, wedi ei ragdybio yn defnyddio cyfanswm holl angen gofal yn 2023 (anghenion gofal presennol (2023) sydd yn cael eu darparu + rhestr aros)
    - Amcan o anghenion gofal wythnosol 2043, wedi ei ragdybio yn defnyddio cyfanswm holl angen gofal yn 2023 (anghenion gofal presennol (2023) sydd yn cael eu darparu + rhestr aros)

***Model Gweithlu***

**<u>Rhagdybiaethau</u>**

- **11.1.21** Nid yw'r model yn ceisio modelu unrhyw newid i "ganol" yr Adran (rheoli, gweinyddu ayb) - gall bod angen cynyddu wrth i'r niferoedd fydd angen gofal gynyddu, ond tebyg bydd modd gweithio'n fwy effeithlon hefyd.
- Mae'r model yn cynnwys nifer o staff, nid oriau gofal.

- **11.1.22** Gan mai pwrpas y model yw edrych ar gyfanswm yr holl unigolion sydd yn ran o weithlu y ffrydiau gofal, gan gynnwys gweithwyr llawn amser a rhan amser, nid yw'r model yn gwahaniaethu rhwng unigolion ar sail eu oriau gwaith. Mae rhagdybiaeth fydd patrymau gwaith y gweithlu yn parhau fel ag y mae h.y.

cymysgedd o weithwyr rhan a llawn amser a bydd y cynnydd staffio sydd yn cael ei fodelu yn cynnwys hyn.

- **11.1.23** Defnyddir oed 16-65 fel 'oedran gweithio' i bwrpas y model – er fod yna staff hŷn na hynny yn gweithio yn y maes gofal mae'r cyfran hwnnw yn gymharol fach, ac i osgoi cymysgu rhwng rhagamcanion oedran y pŵl gweithlu potensial, ac oedran y bobl fydd angen gofal ganddynt. Mae unrhyw staff hŷn na 65 wedi cael eu cynnwys yn y cyfanswm yma.

- **11.1.24** Data gweithlu gofal Gwynedd gan Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) ar gyfer 2022 yw llinell sylfaen gweithlu presennol y ffrydiau gofal canlynol: gofal cartref, gofal preswyl a nyrsio (heb dementia), gofal preswyl a nyrsio (gyda dementia) a gweithwyr cymdeithasol / therapyddion. Nododd GCC eu bod wedi darparu data 2022 gan nad oedd data 2023 ar gyfer darparwyr allanol (h.y. heblaw Cyngor Gwynedd) ar gael ar hyn o bryd. Fe nodwyd hefyd nad oedd rhai staff gomisiynwyd gan Fwrdd Rhanbarthol Gogledd Cymru wedi'u cynnwys yn y ffigyrau.

- **11.1.25** Mae rhai categorïau yn y data GCC yn cynnwys staff sy'n gofalu am oedolion iau na 65 oed a / neu blant, yn ogystal ag oedolion 65+ oed. Defnyddiwyd data am weithlu mewnol Cyngor Gwynedd i addasu'r ffigyrau ar gyfer hyn; mae addasu ar gyfer unrhyw staff tebyg gan ddarparwyr allanol yn anoddach ac mae'n bosib bod rhai ohonynt yn parhau o fewn y ffigyrau.

- **11.1.26** Mae'r model yma unwaith eto wedi rhannu y data i bump ardal daearyddol sef Bangor, Caernarfon, Eifionydd, Llŷn a Meirionydd yn ogystal â Gwynedd gyfan. Doedd data GCC ddim ar gael fesul ardal llai, felly rhannwyd cyfanswm y gweithlu fesul ardal gan ddefnyddio yr oriau gofal o'r model blaenorol i amcangyfrif lleoliad y gweithlu.

- **11.1.27** Gan fod data GCC yn cynnwys staff mewn swydd yn unig, h.y. ddim swyddi gwag, penderfynwyd dylid amcangyfrif y nifer staff ychwanegol fyddai

angen i ddarparu yr oriau gofal sydd ar y rhestr aros bresennol ar gyfer gofal cartref a gofal preswyl a nyrsio (gyda a heb dementia).

- **11.1.28** Gan nad oedd data gweithlu yn cael ei gasglu ar gyfer y ffrwd gofal taliadau uniongyrchol, rhagamcanwyd fod dau weithiwr rhan amser ei angen ar gyfer pob unigolyn oedd yn derbyn taliadau uniongyrchol yn yr wythnos berthnasol (wythnos yn cychwyn Sul 7/5/2023) fel llinell sylfaen y ffrwd yma yn y model.

- **11.1.29** Llinell sylfaen ffrwd Tai Gofal Ychwanegol y model oedd 5 aelod o staff ar gyfer pob Tŷ Gofal Ychwanegol.

- **11.1.30** Rhagamcanwyd y bydd y twf mewn angen am ofalwyr cymdeithasol / therapyddion yn cyd-fynd yn ganrannol gyda'r twf mewn angen gofal cartref.

**Methodoleg**

- **11.1.31** Canolbwyntia'r model anghenion gofal ar chwech ffrwd gofal, sef gofal cartref, gofal preswyl a nyrsio (heblaw dementia), gofal preswyl a nyrsio (dementia), taliadau uniongyrchol, tai gofal ychwanegol a gweithwyr cymdeithasol / therapyddion. Nod y model yma yw modelu'r gweithlu gofal fydd ei angen ac nid yw'n cynnwys anghenion staff cynorthwyol neu swyddfa.

- **11.1.32** Nodwyd llinell sylfaen y model gan ddefnyddio'r ffynonellau data nodwyd yn y rhagamcanion uchod, gan wahanu y staff fesul grŵp oed lle'n bosib.

- **11.1.33** Nid oedd y data yma wedi cael ei wahanu fesul ardal felly defnyddiwyd y rhaniad oriau gofal cyfatebol (cam 3 o'r model anghenion gofal uchod) fel modd o wahanu niferoedd staff fesul pum ardal daearyddol sef Bangor, Caernarfon, Eifionydd, Llŷn a Meirionydd yn ogystal â Gwynedd gyfan. Gan nad oedd gweithwyr cymdeithasol / therapyddion yn ffrwd gofal yn y model anghenion gofal defnyddiwyd y rhaniad oriau gofal cartref o'r model blaenorol.

- **11.1.34** Nid oedd y data gofal preswyl a nyrsio wedi cael ei wahanu i ffrwd gwaith unigolion gyda a heb dementia. Defnyddiwyd yr un dull a nodwyd ym mhwynt 3 i wahanu y gweithlu gofal preswyl a nyrsio i ffrwd heblaw dementia a dementia.

- **11.1.35** Modelwyd anghenion gweithlu y dyfodol gan ddefnyddio'r canrannau cynnydd anghenion gofal gyfrifwyd yn y model anghenion gofal ar gyfer pob ffrwd gofal yn unigol ar gyfer 2033 a 2043. Gan nad oedd gweithwyr cymdeithasol / therapyddion yn ffrwd gofal yn y model anghenion gofal defnyddiwyd y cynnydd gyfrifwyd ar gyfer gofal cartref i fodelu angen gweithlu y dyfodol.

- **11.1.36** Amcangyfrifwyd y nifer ychwanegol o staff fyddai angen i ddarparu anghenion gofal y rhestr aros presennol, gan gyfrifo y cyfran staffio: anghenion gofal presennol a'u luosi gyda oriau gofal y rhestr aros. Gwnaed hyn ar gyfer gofal cartref, gofal preswyl a nyrsio (heb dementia) a gofal preswyl a nyrsio (gyda dementia). Modelwyd anghenion gweithlu dyfodol y rhestr yma gan ddefnyddio y canrannau cynnydd mewn anghenion gofal y rhestr aros cyfrifwyd yn y model anghenion gofal ar gyfer pob ffrwd gofal yn unigol ar gyfer 2033 a 2043. Ni ddylid edrych ar y cynnydd yma fel cynnydd i'r rhestr aros yn y dyfodol, ond cynnydd yn anghenion gweithlu y dyfodol fel yr uchod.

- **11.1.37** Wedi dilyn y camau uchod, mae'r model yn cynnwys yr isod:
    - Nifer staff y gweithlu presennol (2023) ar gyfer gofal cartref, gofal preswyl a nyrsio (heblaw dementia), gofal preswyl a nyrsio (dementia), taliadau uniongyrchol, tai gofal ychwanegol a gweithwyr cymdeithasol / therapyddion
    - Nifer y staff fyddai angen i ddarparu anghenion gofal y rhestr aros presennol (2023) ar gyfer gofal cartref, gofal preswyl a nyrsio (heblaw dementia), gofal preswyl a nyrsio (dementia)

- Amcan o nifer staff y gweithlu yn 2033, wedi ei ragdybio yn defnyddio cyfanswm holl angen gofal yn 2023 (gweithlu presennol (2023) + gweithlu ychwanegol y rhestr aros)
- Amcan o nifer staff y gweithlu yn 2043, wedi ei ragdybio yn defnyddio cyfanswm holl angen gofal yn 2023 (gweithlu presennol (2023) + gweithlu ychwanegol y rhestr aros)

***Model Cyllid***

- **11.1.38** Costau wedi eu cyfrifo ar sail prisiau 2023-24. Mae effaith chwyddiant rhwng rŵan a 2033/2043 wedi ei anwybyddu fel ein bod yn cymharu debyg wrth debyg.

- **11.1.39** Mae rhagdybiaeth fod dyraniad arian y Cyngor gan Llywodraeth Cymru yn dal i fyny gyda'r chwyddiant fydd angen ei dalu ar ffioedd i ddarparwyr.

- **11.1.40** Mae'r gost gofal cartref wedi ei weithio allan drwy gymryd cost cyfartalog awr o ofal cartref yn y wahanol ardaloedd. Hyn wedi arwain at gost uned gwahanol yn y wahanol ardaloedd.

- **11.1.41** Mae'r gost preswyl a nyrsio wedi ei weithio allan drwy edrych ar gost cyfartalog gwely ar draws y ddarpariaeth fewnol ac allanol. Un gost cyfartalog ar gyfer gwelyau preswyl a nyrsio, a cost cyfartalog arall ar gyfer gwelyau preswyl a nyrsio gyda dementia.

- **11.1.42** Y gost cyfartalog ar gyfer preswyl a nyrsio wedi ei weithio allan fel cyfartaledd pwysol ('weighted average'). Hynny yw, mae'r rhaniad rhwng gwelyau preswyl a nyrsio wedi ei gysidro fel rhan o'r gost cyfartalog.

- **11.1.43** Nid yw cyfraniadau unigolion tuag at eu gofal wedi ei gysidro. Mae rhagdybiaeth wedi ei wneud fod y cyfran o gost y gwasanaeth sydd yn cael ei ariannu drwy gyfraniadau yn aros yn gyson.

- **11.1.44** Nifer yr oriau gofal cartref 2023 wedi eu seilio ar gyfnod penodol o fewn 2023 yn hytrach na cyfartaledd y flwyddyn. Gan ddefnyddio'r oriau hyn fel gwaelodlin ar gyfer ei cynyddu yn unol a'r amcanion cynnydd demograffeg

***Modelu'r Cymedr Gwledig a Gweithio yn Arloesol***

**<u>Rhagdybiaethau a Methodoleg</u>**

- **11.1.45** Wrth fodelu effaith posib cyrraedd y cymedr gwledig, y dybiaeth yw fod taro'r cymedr gwledig mewn un ffrwd yn arwain at daro'r cymedr gwledig ym mhob ffrwd arall.

- **11.1.46** Canolbwyntia modelu'r effaith posib cymedr gwledig a gweithio'n arloesol ar y cyfanswm oriau gofal wythnosol, a cyfanswm cyllid, y tri ffrwd gofal 'traddodiadol', hynny yw gofal cartref, gofal preswyl a nyrsio (heblaw dementia) a gofal preswyl a nyrsio (dementia).

- **11.1.47** Pwrpas modelu'r cymedr gwledig a gweithio yn arloesol yw dangos effaith posib y gall newid ein ffordd o weithio gael ar cyfanswm angen gofal a cyllid. Gan fod y maes yn un sydd yn datblygu disgwylir i fwy o dystiolaeth ddod ar gael yn y dyfodol gall ddangos effaith fwy penodol y dulliau arfer gorau ac arloesol ar anghenion gofal.

- **11.1.48** Sail modelu effaith posib cyrraedd y cymedr gwledig yw y canran y fyddai angen lleihau darpariaeth gofal Gwynedd i gyrraedd y cymedr gwledig presennol, a cymhwyso'r newid yma ar oriau anghenion gofal wythnosol y model anghenion gofal. Modelwyd effaith cyrraedd y canran yma yn 2033 a parhau i'w gyrraedd yn flynyddol tan 2043, a modelwyd ei gyrraedd yn 2043 gan gyrraedd hanner y canran yma erbyn 2033. Yr ail senario sydd wedi cael ei gynnwys yn y graff terfynol.

- **11.1.49** Sail modelu effaith posibl gweithio'n arloesol yw cyrraedd y cymedr gwledig presennol erbyn 2033, a cyrraedd lleihad sylweddol uwch erbyn 2043. Wrth i fwy o dystiolaeth am effaith meintiol gweithio yn arloesol ddod ar gael, awgrymir dylid ail fodelu y senario yma i weld beth fydd ei effaith ar anghenion gofal y dyfodol.

## 11.2 Atodiad 2 - Data Cyllid cefndirol i rhan 4

**Tabl 14: Costau uned fesul ffrwd gofal 2023**

| Gwasanaeth | Cost |
|---|---|
| Gofal Cartref (Fesul awr) | £30.54 |
| Gofal Preswyl a Nyrsio (Cost wythnosol) | £870.19 |
| Gofal Preswyl a Nyrsio – Dementia (Cost Wythnosol) | £912.63 |
| Taliadau Uniongyrchol (Fesul Awr) | £15.22 |

### 11.2.1 Gofal Cartref

**Tabl 15: Arddangos gwahaniaeth cost blwyddyn Gofal Cartref a gyflawnwyd yn 2023 a cost llawn yr angen (wrth ystyried y rhestr aros)**

| **Gofal Cartref** | | **Cost Blwyddyn £** | |
|---|---|---|---|
| Oedran | **Cyflawni'n 2023** | **Anghenion 2023** | **Rhestr Aros** |
| 65-69 | 911,872 | 1,080,404 | 168,532 |
| 70-74 | 1,057,472 | 1,226,004 | 168,532 |
| 75-79 | 1,355,640 | 1,566,344 | 210,704 |
| 80-84 | 2,388,256 | 2,823,652 | 435,396 |
| 85-89 | 3,054,480 | 3,658,408 | 603,928 |
| 90+ | 3,016,364 | 3,536,052 | 519,688 |
| **Cyfanswm 65+** | **11,784,084** | **13,890,864** | **2,106,780** |

**Tabl 16: Cost Blwyddyn Gofal Cartref fel a gyflawnwyd yn 2023 gan arddangos cynnydd cost yn erbyn 2033 a 2043 ar sail anghenion**

| **Gofal Cartref** | | **Cost Blwyddyn £** | |
|---|---|---|---|
| Oedran | **Cyflawni'n 2023** | **Amcan 2033** | **Amcan 2043** |
| 65-69 | 911,872 | 1,269,528 | 1,057,056 |
| 70-74 | 1,057,472 | 1,279,304 | 1,320,800 |
| 75-79 | 1,355,640 | 1,614,548 | 1,899,352 |
| 80-84 | 2,388,256 | 3,479,892 | 3,993,600 |
| 85-89 | 3,054,480 | 4,903,756 | 4,906,512 |
| 90+ | 3,016,364 | 3,985,176 | 5,204,472 |
| **Cyfanswm 65+** | **11,784,084** | **16,532,204** | **18,381,792** |
| **Cynnydd ar 2023** | | **4,748,120** | **6,597,708** |

### 11.2.2 Gofal Preswyl a Nyrsio (nid Dementia)

**Tabl 17: Cost Blwyddyn Gofal Preswyl a Nyrsio (nid Dementia) fel a gyflawnwyd yn 2023 gan arddangos cynnydd cost yn erbyn 2033 a 2043 ar sail anghenion**

| **Gofal Preswyl a Nyrsio (nid Dementia)** | | **Cost Blwyddyn £** | |
|---|---|---|---|
| | **Cyflawni'n 2023** | **Amcan 2033** | **Amcan 2043** |
| Cyfanswm 65+ | 24,389,761 | 30,909,516 | 36,358,027 |
| **Cynnydd ar 2023** | | **6,519,755** | **11,968,266** |

### 11.2.3 Gofal Preswyl a Nyrsio Dementia

**Tabl 18: Arddangos gwahaniaeth cost blwyddyn Gofal Preswyl a Nyrsio Dementia a gyflawnwyd yn 2023 a cost llawn yr angen (wrth ystyried y rhestr aros)**

| **Gofal Preswyl a Nyrsio Dementia** | | **Cost Blwyddyn £** | |
|---|---|---|---|
| Oedran | **Cyflawni'n 2023** | **Anghenion 2023** | **Rhestr Aros** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| 65-69 | 142,370 | 189,827 | 47,457 |
| 70-74 | 616,939 | 664,396 | 47,457 |
| 75-79 | 1,044,051 | 1,233,878 | 189,828 |
| 80-84 | 2,277,930 | 2,562,671 | 284,741 |
| 85-89 | 2,230,473 | 2,372,844 | 142,371 |
| 90+ | 3,132,153 | 3,559,265 | 427,112 |
| **Cyfanswm 65+** | **9,443,917** | **10,582,882** | **1,138,965** |

**Tabl 19: Cost Blwyddyn Gofal Preswyl a Nyrsio Dementia fel a gyflawnwyd yn 2023 gan arddangos cynnydd cost yn erbyn 2033 a 2043 ar sail anghenion**

| **Gofal Preswyl a Nyrsio Dementia** | **Cost Blwyddyn £** | | |
|---|---|---|---|
| | **Cyflawni'n 2023** | **Amcan 2033** | **Amcan 2043** |
| Cyfanswm 65+ | 9,443,917 | 12,900,072 | 15,076,944 |
| **Cynnydd ar 2023** | | **3,456,155** | **5,633,027** |